Croeso Cymru

Canllaw ar y Cynllun Gradd Sêr ar gyfer

Llety Gwesteion â Gwasanaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Croeso i Gynllun Gradd Sêr Croeso Cymru ar gyfer Llety Gwesteion â Gwasanaeth

Ai Hwn yw'r Canllaw Iawn i Chi?

Os ydych yn cynnig llety â gwasanaeth i ymwelwyr, sydd ychydig yn llai ffurfiol nag a ddisgwylir fel arfer mewn gwesty, yna mae'n debyg mai hwn yw'r llyfr sy'n egluro sut y gall eich busnes gael un o'r pum gradd Sêr a roddir gennym.

Fodd bynnag, os ydych yn teimlo eich bod yn cynnig cyfleusterau gwesty i'ch gwesteion, yn enwedig os yw'r gair 'gwesty' yn rhan o enw eich busnes, yna bydd angen i chi edrych ar ein llyfryn arall, 'Croeso Cymru – Canllaw ar y Cynllun Gradd Sêr ar gyfer Gwestai', oherwydd bydd ansawdd eich busnes yn cael ei raddio ar sail cynnwys y llyfr hwnnw. Gallwch gael copi o'r llyfr hwnnw drwy ddefnyddio'r manylion cysylltu sydd i'w gweld y tu mewn i'r clawr cefn. Ceir cynllun Safon Gyffredin y cytunwyd arno ar gyfer Llety Pris Rhesymol hefyd, sef llety ochr ffordd am bris rhesymol heb lawer o wasanaethau. Dylid nodi na roddir Sêr i'r math hwn o lety.

Cynnwys

Adran	Manylion	Tudalen
1.0	**Cyflwyniad Cyffredinol**	**4**
1.1.	**Cyflwyniad**	
	1.1.1 Safonau Cyffredin Ledled Prydain	4
	1.1.2 Y Gofynion	4
	1.1.3 Eithriadau	4
	1.1.4 Sut mae'r system asesu'n gweithio?	4
1.2	**Categorïau/Is-gategorïau**	**6**
	1.2.1 Mathau o Is-gategorïau	6
	1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol	6
1.3	**Y Prif Ofynion ar gyfer pob Gradd**	**7**
	1.3.1 Gofynion Mynediad Sylfaenol	7
	1.3.2 Y Prif Ofynion Mynediad	7
	1.3.3 Cyfleusterau Allweddol Eraill sy'n Ofynnol ar Radd 3 Seren ac Uwch	7
1.4	**Ansawdd**	**8**
	1.4.1 Asesiadau Ansawdd ar gyfer Llety Gwesteion	8
	1.4.2 Asesiadau Graddio ar gyfer Llety Gwesteion	8
2.0	**Gofynion Manwl**	**8**
2.1	**Safonau Cyffredinol**	**8**
	2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol	8
	2.1.2 Glendid	9
2.2	**Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd – Lletygarwch a Chyfeillgarwch**	**10**
	2.2.1 Archebu Lle a Gwybodaeth Cyn Cyrraedd	10
	2.2.2 Gwesteion yn Cyrraedd, Croeso a Mynediad	10
	2.2.3 Gwesteion yn Ymadael	11
2.3	**Brecwast**	**11**
	2.3.1 Gofyniad Cyffredinol	11
2.4	**Ystafelloedd Gwely**	**11**
	2.4.1 Maint ac Ehangder yr Ystafelloedd Gwely	11
	2.4.2 Gwelyau a Dillad Gwely – Maint ac Ansawdd	11
	2.4.3 Dillad Gwely – Ansawdd a Darpariaeth	12
	2.4.4 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau	12
	2.4.5 Ffenestri ac Awyru	13
	2.4.6 Goleuo	13
	2.4.7 Gwresogi	13
	2.4.8 Lloriau	13
	2.4.9 Cyfleusterau Gwneud Te a Choffi	13
	2.4.10 Ffonau mewn Ystafelloedd Gwely	13
	2.4.11 Gofynion Amrywiol	14

Adran	Manylion	Tudalen
2.5	**Ystafelloedd Ymolchi, Ystafelloedd Cawod a Chyfleusterau En-Suite**	**14**
	2.5.1 Cyffredinol	14
	2.5.2 Cyfleusterau En-Suite	15
	2.5.3 Darpariaeth En-Suite	15
	2.5.4 Cyfleusterau Ystafelloedd Ymolchi/Cawod Preifat	15
	2.5.5 Gosodiadau a Ffitiadau ar gyfer pob Ystafell Ymolchi/Gawod (Cyhoeddus, Preifat neu En-Suite)	16
	2.5.6 Ystafelloedd Ymolchi Cyhoeddus/Ystafelloedd Ymolchi sy'n cael eu Rhannu	17
	2.5.7 Tai Bach i Westeion (Rhannu)	17
	2.5.8 Basnau Ymolchi mewn Ystafelloedd Gwely	17
2.6	**Prydau Bwyd i Westeion**	**18**
	2.6.1 Brecwast	18
	2.6.2 Cinio gyda'r Nos – Os yw'n cael ei Ddarparu	18
2.7	**Mannau Cyhoeddus**	**18**
	2.7.1 Lolfeydd, Barrau, Mannau Bwyta, Tŷ Bwyta, Cynteddau, Grisiau, Coridorau a Phen Grisiau	18
	2.7.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo	19
	2.7.3 Y Tu Allan i Adeiladau a Chyflwr Adeiladau a Chyfarpar	19
2.8	**Rhandai**	**19**
3.0	**Canllawiau Ansawdd**	**19**
3.1	**Cyffredinol**	**19**
	3.1.1 Beth yw Ansawdd?	19
	3.1.2 Graddio – Asesiad ar gyfer Gradd Ansawdd	20
	3.1.3 Graddio – Asesu'r Sgôr Ansawdd	20
	3.1.4 Bandiau Graddau	20
	3.1.5 Dangosyddion Ansawdd	20
3.2	**Glendid**	**21**
3.3	**Lletygarwch a Chyfeillgarwch**	**22**
3.4	**Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd**	**22**
	3.4.1 Archebu Lle a Chyrraedd	22
	3.4.2 Cinio gyda'r Nos (os yw'n cael ei weini) a Gwasanaethau Cyffredinol	24
	3.4.3 Brecwast	24
	3.4.4 Ymadael	25
3.5	**Y Tu Allan**	**26**
	3.5.1 Adeiladau, Ymddangosiad a Chyflwr	26
	3.5.2 Tir/Gerddi/Libart	27
	3.5.3 Lle Parcio (os yw'n berthnasol)	27

Adran	Manylion	Tudalen
3.6	**Mannau Cyhoeddus Eraill**	**28**
	3.6.1 Y Dderbynfa – Ansawdd a Chyflwr	28
	Grisiau, Coridorau, Cynteddau a Phen Grisiau – Ansawdd a Chyflwr	
	Cyfleusterau Hamdden/Toiledau Cyhoeddus ac ati – Ansawdd a Chyflwr	
3.7	**Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr**	**28**
	3.7.1 Addurno	29
	3.7.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau	29
	3.7.3 Lloriau	30
	3.7.4 Gwelyau/Dillad Gwely	30
	3.7.5 Goleuo/Gwresogi/Awyru – Ansawdd y Ddarpariaeth	31
	3.7.6 Ategolion Ystafelloedd Gwely	32
	3.7.7 Gofod, Cysur a Hwylustod	33
3.8	**Ystafelloedd Ymolchi/Ystafelloedd En-Suite/Toiledau – Ansawdd a Chyflwr**	**34**
	3.8.1 Addurno	34
	3.8.2 Gosodiadau a Ffitiadau	35
	3.8.3 Lloriau	36
	3.8.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru	36
	3.8.5 Tyweli a Phethau Ymolchi – Ansawdd, Ystod a Chyflwyniad	37
	3.8.6 Gofod, Cysur a Hwylustod	38
3.9	**Yr Holl Fannau Cyhoeddus, gan gynnwys Lolfeydd, Barrau, Cynteddau, Grisiau, Pen Grisiau a Thoiledau Cyhoeddus – Ansawdd a Chyflwr**	**38**
	3.9.1 Addurno	38
	3.9.2 Celfi, Ffitiadau a Dodrefn Meddal	39
	3.9.3 Lloriau	40
	3.9.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth	41
	3.9.5 Gofod, Cysur a Hwylustod	42
3.10	**Ystafell Fwyta neu Dŷ Bwyta – Ansawdd a Chyflwr**	**42**
	3.10.1 Addurno	42
	3.10.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau	43
	3.10.3 Lloriau	43
	3.10.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth	44
	3.10.5 Gosodiad y Bwrdd – Ansawdd a Chyflwr	44
	3.10.6 Gofod, Cysur a Hwylustod	45
3.11	**Ansawdd y Bwyd**	**46**
	3.11.1 Cinio gyda'r Nos	46
	3.11.2 Brecwast	47
4.0	**Cod Ymddygiad**	**47**
5.0	**Amodau Cymryd Rhan**	**48**
6.0	**Newid Perchnogaeth**	**48**
7.0	**Arwyddion**	**48**
8.0	**Beth i'w Wneud Os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddir**	**49**

1.0 Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredin Ledled Prydain

Er 2006, mae Visit England, Visit Scotland, Croeso Cymru a'r AA wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd â chefnogaeth y Llywodraeth i weithredu Safon Gyffredin ar gyfer asesu ansawdd llety â gwasanaeth ledled Prydain. Ymunodd Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon â phartneriaid y safon gyffredin yn 2010, ac erbyn hyn mae meini prawf y safon gyffredin wreiddiol ar gyfer Gwestai a Llety Gwesteion wedi cael eu diweddaru.

Bydd Croeso Cymru'n defnyddio'r gofynion newydd hyn ar gyfer safon gyffredin i bennu gradd Sêr eich sefydliad. Bydd eich gradd yr un fath pa un a ydych yn dewis Croeso Cymru neu'r AA i wneud eich asesiad. Wrth gwrs, gallwch ddewis cael eich asesu gan fwy nag un sefydliad, ond bydd pob sefydliad yn rhoi'r un radd sêr a disgrifiad i chi. Fodd bynnag, nid yw gwobrau marchnata ychwanegol am fwyd, cyfforddusrwydd a gwasanaeth, e.e. gwobr Aur Croeso Cymru, yn rhan o'r cytundeb hwn.

1.1.2 Y Gofynion

Rydym wedi seilio'r gofynion ar gyfer y graddau sêr ar safonau presennol yr holl sefydliadau ynghyd ag ymchwil helaeth i anghenion a disgwyliadau ymwelwyr. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang â'r diwydiant lletygarwch.

Mae'r adborth a gawsom gan y diwydiant yn dangos cefnogaeth gref i safon ansawdd gyffredin ar gyfer llety â gwasanaeth ym mhob un o'r gwledydd lle mae'r cynlluniau'n cael eu gweithredu. Ein nod ar gyfer y safon ansawdd gyffredin ddiwygiedig hon yw dal i weithio gyda'r diwydiant, ac ymdrechu gyda'n gilydd i godi safonau ansawdd wrth i ddisgwyliadau defnyddwyr newid.

1.1.3 Eithriadau

Gellir caniatáu eithriadau ar gyfer rhai gofynion unigol yn y safonau ansawdd ar yr amod bod y sefydliad yn bodloni neu'n rhagori ar yr holl ofynion a lefelau ansawdd eraill ar gyfer y radd honno. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn seiliedig ar achosion unigol a bydd yn rhaid iddo fod wedi'i gytuno gan Weithgor y Grŵp Adolygu Safonau, sy'n cynrychioli pob un o'r pum sefydliad sy'n gweithredu'r Safonau Cyffredin – yr AA, Visit England, Visit Scotland, Croeso Cymru a Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon. Bydd angen i unrhyw eithriadau ddangos cynnydd cymesur mewn ansawdd mewn meysydd eraill i wneud iawn am y maes lle gofynnir am eithriad.

1.1.4 Sut mae'r system asesu'n gweithio?

Yn fyr, mae tair rhan i'r broses:

Cam 1 – Bydd Cynghorydd Ansawdd Croeso Cymru'n rhoi sgôr i'r busnes cyfan ar sail ansawdd.

Cam 2 – Bydd y Cynghorydd Ansawdd yn sicrhau bod elfennau penodol o'r busnes yn bodloni'r hyn a elwir yn 'Gymwysyddion Adrannol' o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn sicrhau bod gofynion ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau, sy'n briodol i'r Radd Sêr, yn bresennol ac ar gael.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau ag asesiad ansoddol gwrthrychol gan ein Cynghorydd Ansawdd o bob agwedd ar eich busnes, o gyflwr yr adeilad ei hun, y celfi, y dodrefn meddal ac ati, i'r gwasanaethau a gynigir i'r gwesteion. Yn syml iawn, rhoddir sgôr rifiadol i bob agwedd sy'n cael ei hasesu ac mae'r sgôr honno'n cyfateb i ddisgrifiad o lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os yw rhywbeth o ansawdd Rhagorol, bydd yn cael 5 pwynt; os yw'n cael ei ystyried yn Dderbyniol rhoddir sgôr o 1. Er mwyn osgoi unrhyw ragfarn, mae ein Cynghorwyr Ansawdd yn cael eu hyfforddi ac maent yn dilyn canllawiau penodol. Mae gwerth y pwyntiau'n cynrychioli lefelau esgynnol o ansawdd, fel hyn:

- Ansawdd rhagorol - 5 pwynt
- Ansawdd da iawn - 4 pwynt
- Ansawdd da - 3 pwynt
- Ansawdd eithaf da - 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol - 1 pwynt

(Gweler adran 3.1.5. am ganllawiau ar y termau uchod).

Pan fydd ffurflen yr adroddiad wedi'i chwblhau a'r sgorau wedi cael eu dyrannu, byddant yn cael eu hadio, a chyfrifir sgôr ganrannol ar gyfer ansawdd y busnes cyfan. Drwy edrych ar yr ystod o ganrannau bandiau sêr, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn cael syniad beth allai'r radd Sêr derfynol fod.

Gradd Sêr	Canrannau Mynediad
1 Seren	30 – 46%
2 Seren	47 – 54%
3 Seren	55 – 69%
4 Seren	70 – 84%
5 Seren	85 – 100 %

Fodd bynnag, mae dau gam arall i'w dilyn cyn pennu'r canlyniad terfynol.

Cam 2

Rhaid i'r Cynghorydd Ansawdd wirio cysondeb yr ansawdd yn awr, gan ddefnyddio'r hyn y cyfeiriwn ato fel 'Cymwysyddion Adrannol'. Pwrpas y dull hwn o weithredu yw sicrhau nad yw un agwedd ar y busnes wedi bod yn cael marciau uchel, gan yrru'r marc canran terfynol i'r lefel gradd Sêr nesaf a rhoi camargraff i'r gwestai ynglŷn â'r ansawdd cyffredinol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos i ni bod ansawdd rhai agweddau ar lety gwesteion yn arbennig o bwysig i westeion. Os nad yw'r agweddau hyn yn bodloni disgwyliadau gwesteion ar unrhyw radd Sêr benodol, maent yn debygol o fod yn gwsmeriaid siomedig. Mae'n bwysig iawn felly bod ansawdd y meysydd hollbwysig hyn yn cyfateb i radd derfynol y busnes.

Y meysydd allweddol yw Glendid, Lletygarwch, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Ymolchi a Brecwast a defnyddir sgorau a gafwyd yn y meysydd hyn i gadarnhau'r radd Sêr derfynol. Mae gan bob un o'r meysydd cymhwyso isafswm sgôr ganrannol ar bob lefel, ond os na chyrhaeddir y sgôr isaf ar gyfer 1 Seren ni roddir unrhyw radd Sêr.

Nodir isod isafswm y sgôr ganrannol ar bob lefel.

Gradd Sêr	1 Seren	2 Seren	3 Seren	4 Seren	5 Seren
Glendid	40	50	65	75	90
Lletygarwch	40	50	65	75	90
Yst. Gwely	30	47	55	70	85
Yst. Ymolchi	30	47	55	70	85
Brecwast	30	47	55	70	85

Cam 3

Yn olaf, rhaid sicrhau bod unrhyw gyfleusterau/gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar bob lefel benodol yn bresennol ac ar gael, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ofynnol ar bob lefel Sêr flaenorol. Yn ôl gwaith ymchwil, po uchaf yw'r radd, y mwyaf o gyfleusterau a gwasanaethau y mae'r defnyddiwr yn eu disgwyl. Gall y Cynghorydd Ansawdd ddweud wrthych yn awr pa radd Sêr y byddwch yn ei chael!

1.2 Categorïau/Is-gategorïau

1.2.1 Mathau o Is-gategorïau

Rydym wedi datblygu Disgrifiadau, neu is-gategorïau, er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall y gwahanol fathau o lety gwesteion â gwasanaeth sydd ar gael. Bydd pob Llety Gwesteion yn cael ei osod yn un o'r is-gategorïau disgrifiadol isod.

- Gwely a Brecwast
- Tŷ Llety
- Ffermdy
- Tafarn
- Bwyty â Llofftydd
- Llety Gwesteion

1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol

Dylai sefydliadau sy'n cael eu gosod ym mhob un o'r Is-gategorïau hyn gyflawni'r holl ofynion ar gyfer Llety Gwesteion.

Is-gategori	Disgrifiad Cyffredinol
Gwely a Brecwast	Llety'n cael ei ddarparu mewn tŷ preifat, sy'n cael ei redeg gan y perchennog ac â dim mwy na chwe gwestai sy'n talu.
Tŷ Llety	Llety'n cael ei ddarparu i fwy na chwe gwestai sy'n talu ac yn cael ei redeg ar sail fwy masnachol na Gwely a Brecwast. Mwy o wasanaethau fel arfer, er enghraifft cinio gyda'r nos, yn cael eu darparu gan staff yn ogystal â'r perchennog.
Ffermdy	Gwasanaeth Gwely a Brecwast neu dŷ llety yn cael ei ddarparu ar fferm/tyddyn.

Is-gategori	Disgrifiad Cyffredinol
Tafarn	Mae tafarn yn sefydliad â thrwydded lawn i werthu diod gadarn ar y safle. Mae ar agor i bobl sy'n aros yno ac i eraill, mae bwyd a diod yn rhan allweddol o'r busnes, ac mae bar/tŷ bwyta ar gael amser cinio a gyda'r nos. Rhan gymharol fach o'r busnes yw'r llety o'i gymharu â bwyd/diod. Bydd y cyfleusterau/gwasanaethau a ddarperir i'r gwesteion yn debycach i'r rhai a ddarperir gan sefydliadau Gwely a Brecwast. Bydd y 'tafarnau' hynny sy'n darparu llety a gwasanaeth traddodiadol tebyg i'r hyn a geir mewn gwesty yn gymwys ar gyfer y disgrifiad 'Gwesty'.
Bwyty â Llofftydd	Tŷ bwyta sy'n cynnig llety dros nos, ond y tŷ bwyta yw'r prif fusnes ac mae ar agor i bobl ar wahân i'r rhai sy'n aros yno. Dylai'r tŷ bwyta gynnig gwasanaeth tŷ bwyta a bwyd o safon uchel o leiaf 5 noson yr wythnos. Mae angen trwydded wirod ac uchafswm o 12 ystafell wely.
Llety Gwesteion	Mae unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r gofynion mynediad sylfaenol yn gymwys ar gyfer yr is-gategori cyffredinol hwn.

1.3 Y Prif Ofynion ar gyfer Pob Gradd

1.3.1 Gofynion Mynediad Sylfaenol

I gael eich cydnabod yn y safon ar gyfer Llety Gwesteion rhaid i chi fodloni'r holl Ofynion Manwl a restrir rhwng tudalennau 8 ac 19 yn y ddogfen hon.

1.3.2 Y Prif Ofynion Mynediad

Y prif ofynion mynediad ar gyfer Llety Gwesteion.

Un Seren

- Brecwast wedi'i goginio neu frecwast Ffrengig sylweddol yn cael ei weini.
- Y perchennog a/neu staff ar gael pan fo gwesteion yn cyrraedd, pan fyddant yn gadael a phob amser bwyd.
- Ar ôl cofrestru, bydd gwesteion preswyl yn cael mynediad i'r sefydliad unrhyw adeg oni nodwyd amseroedd penodol ymlaen llaw.
- Pob maes gweithredu'n bodloni'r gofynion ansawdd sylfaenol ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch yn ogystal â chyfleusterau a gwasanaethau.
- Rhaid i chi fodloni'r holl rwymedigaethau statudol presennol a darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

1.3.3 Cyfleusterau Allweddol Eraill sy'n Ofynnol ar Radd 3 Seren ac Uwch

- Dwy Seren – Ni ellir rhannu ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod gyda'r perchnogion.
- Tair Seren – Basn ymolchi ym mhob ystafell wely ar gyfer gwesteion nad oes ganddynt gyfleusterau en-suite neu breifat.

- Pedair Seren – 50% o'r ystafelloedd gwely ar gyfer gwesteion i fod yn rhai en-suite neu â chyfleusterau preifat.
- Pum Seren – Pob ystafell wely ar gyfer gwesteion i fod yn un en-suite neu â chyfleusterau preifat.

1.4 Ansawdd

1.4.1 Asesiadau Ansawdd ar gyfer Llety Gwesteion

Mae pum lefel ansawdd, yn amrywio o Un Seren i Bum Seren. Er mwyn cael gradd Sêr uwch bydd angen i chi ddarparu safonau ansawdd uwch ym mhob maes â phwyslais arbennig ar bum prif faes; glendid, lletygarwch, brecwast, ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi. Dengys ein gwaith ymchwil bod ansawdd yn bwysig iawn i ymwelwyr. I gael rhagor o fanylion darllenwch yr adran am Raddio Ansawdd (tudalen 19).

1.4.2 Asesiadau Graddio ar gyfer Llety Gwesteion

Os ydych yn cymryd rhan yn y cynllun Llety Gwesteion, a'ch bod yn dymuno symud i radd uwch, bydd angen i chi fodloni safonau ansawdd cynyddol uwch. Ar y lefel ansawdd uchaf, disgwylir y byddwch yn cynnig rhai cyfleusterau a gwasanaethau ychwanegol a phriodol, ac y bydd gwesteion yn cael y gofal gorau un.

Rydym yn defnyddio ymadroddion fel 'eithaf da', 'da' neu 'da iawn' i ddangos lefelau ansawdd esgynnol mewn termau cyffredinol yn unig. Maent yn fwriadol amhenodol gan ein bod yn cydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellir eu cynnwys.

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol

- **Yswiriant AtebolrwyddCyhoeddus:** er nad yw'n un o'r gofynion statudol, mae'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Efallai y gofynnir i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod y gofynion isod yn cael eu cyflawni.

Hygyrchedd	Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer mynd allan o'r adeilad os bydd tân yn ystyried ffordd allan mewn argyfwng i bobl anabl. Cofiwch ei bod yn bosibl na fydd gwesteion sydd â nam ar eu clyw yn gallu clywed rhywun yn curo ar y drws. Cofnodwch leoliad yr ystafell ac unrhyw ofynion penodol.

Cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol gan gynnwys:

- **Asesiad Risgiau Tân:** cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- **Diogelwch/Hylendid Bwyd:** cofrestru â'r adran Iechyd yr Amgylchedd leol.
- **Cofrestr Gwesteion:** darparu cofrestr o'r holl westeion; cofnodi rhif pasbort pob gwestai tramor.
- **Iechyd a Diogelwch:** gweithredu'n ddiogel gan roi ystyriaeth briodol i'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a dangos tystiolaeth bod ystyriaeth wedi'i rhoi

i ddiogelwch gwesteion ac i ddiogelwch eiddo gwesteion; darparu gwybodaeth glir ynglŷn â sut i gysylltu â'r perchennog/rheolwr os bydd argyfwng.

- **Cynllunio:** cydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio lleol.
- **Trwyddedu:** cydymffurfio â'r holl reoliadau trwyddedu lleol (os ydynt yn berthnasol).
- **Deddf Perchnogion Gwestai:** cydymffurfio â'r Ddeddf hon (os yw'n berthnasol).
- **Deddf Diogelu Data:** cydymffurfio â'r Ddeddf hon.
- **Prisiau a Thalu:** egluro wrth y gwesteion beth yn union sy'n cael ei gynnwys yn yr holl brisiau a ddyfynnir ar gyfer llety gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill; cadw at y prisiau a ddyfynnir ar yr adeg y gwneir yr archeb a pheidio â chodi mwy.
- **Polisi Canslo:** rhoi gwybodaeth glir am y polisi canslo i'r gwesteion pan fyddant yn archebu lle h.y. dros y ffôn, drwy ffacs neu drwy e-bost.
- **Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008:** cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn drwy roi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn unrhyw hysbyseb, taflen, neu ddeunydd arall, boed wedi'i argraffu neu'n electronig.
- Hysbysu ymwelwyr pan maent yn archebu lle, ac ar ôl hynny, am unrhyw newid, os yw'r llety'n cael ei gynnig mewn rhandy ar wahân neu mewn adeilad tebyg arall, a nodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw newidiadau o ran moethusrwydd a/neu amwynderau o gymharu â llety yn y prif eiddo.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010 (yn disodli Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995):** Cydymffurfio â'r Ddeddf hon. Croesawu pob gwestai yn gwrtais a heb wahaniaethu ar sail rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hil, crefydd neu gred. Gwneud addasiadau 'rhesymol' i wella gwasanaeth i gwsmeriaid anabl. Llunio Datganiad Hygyrchedd – disgrifiad o gyfleusterau a gwasanaethau a gynigir.
- Darparu llety glân, hylan, diogel, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda i'r gwesteion bob amser.

D.S. Mae'n annhebygol y bydd sefydliad sy'n cynnig llety i breswylwyr sy'n derbyn nawdd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol neu sy'n gweithredu fel hostel sy'n cynnig lloches i bobl ddigartref yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun.

2.1.2 Glendid

Cynaliadwyedd	Ystyried defnyddio cynnyrch glanhau bach eu heffaith nad ydynt yn cynnwys clorin, fel cadachau microffibr, sy'n golygu nad oes angen defnyddio cymaint o hylif glanhau.

Gan fod glendid o'r pwys mwyaf i'r defnyddiwr, ar bob gradd sêr, mae safonau glendid cyson yn hanfodol. Dylid rhoi sylw penodol i ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau yn enwedig eitemau y mae gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â hwy, gan gynnwys:

- Dillad gwely, cynfasau a thyweli.
- Bath, cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau.
- Lloriau a chadeiriau.

- Llestri, cyllyll a ffyrc a gwydrau.
- Pob ystafell wely, ystafell ymolchi ac ystafell gawod yn cael ei glanhau'n ddyddiol ac yn cael ei harchwilio i sicrhau safonau glendid priodol.

Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod yn lân ac yn arogli'n braf. Sylw penodol yn cael ei roi i doiledau, tyllau plygiau, llenni cawodydd, drychau a ffaniau echdynnu.

2.2 Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd – Lletygarwch a Chyfeillgarwch

2.2.1 Archebu Lle a Gwybodaeth Cyn Cyrraedd

- Dylid rhoi disgrifiad cywir i westeion a darpar westeion o'r mwynderau, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan eich busnes – mewn unrhyw hysbyseb, taflen, neu ddeunydd arall a ddefnyddir, boed wedi'i argraffu neu'n electronig.
- Dylech nodi'n glir wrth westeion beth yn union sy'n cael ei gynnwys yn y prisiau rydych yn eu dyfynnu ar gyfer llety, prydau bwyd a lluniaeth. Rhaid i chi gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi a thaliadau ychwanegol eraill. Mae'r gyfraith yn nodi na ddylech godi mwy na'r pris rydych yn cytuno arno ar adeg archebu lle. Dylech egluro'n fanwl unrhyw daliadau am wasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau sydd ar gael a thelerau canslo, os yw hynny'n berthnasol. Os oes angen blaendal, bydd angen i chi ddweud wrth westeion pan fyddant yn archebu lle ac egluro sut y bydd yn cael ei gymryd ac a oes modd cael ad-daliad ai peidio pe baent yn canslo.
- Pan fyddwch yn cymryd archeb dylech ddisgrifio'n fanwl unrhyw bolisïau mewnol, e.e. polisi dim smygu, dulliau talu, cyfyngiadau mynediad.
- Os bydd darpar westeion yn gofyn am gael gweld y llety cyn archebu lle, rhaid i chi ei ddangos iddynt.
- Rhaid i chi sôn wrth bob darpar ymwelydd am unrhyw waith adnewyddu mawr a allai effeithio ar ei arhosiad.

2.2.2 Gwesteion yn Cyrraedd, Croeso a Mynediad

- Dylai'r perchennog neu'r staff fod ar ddyletswydd yn ystod y prif gyfnodau cyrraedd a gadael ac yn ystod amseroedd prydau bwyd. Mae'n dderbyniol i'r fynedfa fod ar glo ac efallai y bydd angen i'r gwestai ganu cloch neu guro ar y drws i gael dod i mewn.
- Cofrestru pob gwestai pan fydd yn cyrraedd.
- Ar ôl i'r gwesteion gofrestru, dylent gael mynediad i'r sefydliad ac i'w hystafelloedd gwely ar unrhyw adeg, oni bai eu bod wedi cael eu hysbysu cyn hynny am unrhyw gyfyngiadau. Efallai y rhoddir allwedd neu god diogelwch ar gyfer y brif fynedfa.
- Dylech ddarparu gwasanaeth sy'n briodol i'r math o lety, ac ymdrin yn gyflym â phob ymholiad, cais, archeb am le, gohebiaeth a chŵyn gan westeion.
- Rhaid cael ffordd effeithiol o alluogi gwesteion i alw am sylw'r perchennog neu'r staff, ac mae angen i'r perchennog neu'r staff fod ar gael ar bob adeg resymol (fel uchod). Os yw'r perchennog neu'r staff ymaith o'r safle dros dro neu'n byw yn rhywle ar wahân i'r eiddo, rhaid sicrhau bod modd i'r gwesteion alw am gymorth personol 24 awr y diwrnod, heb orfod defnyddio eu ffôn symudol eu hunain. Os yw'r signal ffôn symudol yn wael, neu os nad oes signal, dylid darparu dull dibynadwy arall o gysylltu i'r gwesteion. Rhaid i weithredwyr (neu gynrychiolydd dynodedig) fod ar gael i ddod i'r safle yn gyflym os bydd argyfwng.

2.2.3 Gwesteion yn Ymadael

- Dylech ddarparu manylion ysgrifenedig am daliadau sy'n ddyledus a rhoi derbynneb i unrhyw ymwelydd sy'n gofyn am un. Mae angen i chi ddangos elfen TAW y bil yn glir lle bo'n berthnasol.

2.3 Brecwast

2.3.1 Gofyniad Cyffredinol

- Dylai brecwast llawn wedi'i goginio neu frecwast Ffrengig fod ar gael (gweler 2.6.1 am fanylion).

2.4 Ystafelloedd Gwely

2.4.1 Maint ac Ehangder yr Ystafelloedd Gwely

- Dylai pob ystafell wely fod â digon o le i westeion allu symud o amgylch yr ystafell yn rhwydd.

D.S. – Mae pob ystafell wely sy'n llai na'r meintiau isod yn annhebygol o fodloni'r gofynion sylfaenol.

- Sengl 5.6m.sg/60tr.sg
- Dwbl 8.4m.sg/90tr.sg
- Dau Wely 10.2m.sg/110tr.sg

Pan fyddwn yn asesu maint ystafelloedd gwely byddwn yn ystyried y gofod defnyddiadwy sydd ar gael o amgylch celfi a ffitiadau. Ar gyfer gradd ansawdd uwch, disgwylir i ystafelloedd fod yn helaeth.

- Mae angen i'r nenfwd fod yn ddigon uchel yn y rhan fwyaf o'r ystafell i alluogi rhywun 6 troedfedd i symud o gwmpas heb blygu ei ben. Mae bondo a thoeau ar oleddf yn dderbyniol cyn belled nad ydynt yn cyfyngu'n annerbyniol ar symudiad gwesteion.
- Dylid gallu agor drysau a droriau i'r pen heb orfod symud celfi eraill.
- Mae angen i ystafelloedd teulu fod yn llawer mwy.

D.S. – Lle mae modd mynd at un ochr yn unig o wely dwbl, gradd Tair Seren yw'r uchaf y gellir ei dyfarnu, a rhaid hysbysu gwesteion ynglŷn â hyn pan fyddant yn archebu'r ystafell.

2.4.2 Gwelyau a Dillad Gwely – Maint ac Ansawdd

Lleiafswm maint gwelyau:

- Sengl 190 x 90cm/6'3" x 3'
- Dwbl 190 x 137cm /6'3" x 4'6"

Dim ond ar gyfer plant y bydd gwelyau 183 x 75cm/6' x 2'6" yn dderbyniol a dim ond fel rhan o ystafell deulu y gellir eu defnyddio. Bydd gwelyau 190 x 122cm/6'3" x 4' yn dderbyniol ar gyfer gwelyau sengl yn unig.

- Nid yw ystafelloedd â gwelyau bync yn unig yn dderbyniol ar gyfer oedolion. *Dylai gwelyau bync fod ag o leiaf 75cm/2 droedfedd 6 modfedd o le gwag rhwng matres y gwely isaf ac ochr isaf y gwely uchaf (Rheoliadau Gwelyau Bync 1997).*

- Dylai pob matres fod yn gyfforddus ac â gorchudd matres drosti. Dylai'r tu mewn fod yn sbrings neu dylai fod wedi ei gwneud o sbwng neu ddeunydd tebyg. Dylai pob matres gael gorchudd. Nid yw gorchudd plastig neu rwber yn dderbyniol ac eithrio pan fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer plant bach.
- Dylai pob gwely a matres fod mewn cyflwr da a dylai pob gwely fod â phen gwely cadarn neu'r hyn sy'n cyfateb iddo.

2.4.3 Dillad Gwely – Ansawdd a Darpariaeth

- Dylai pob gwely gael ei wneud yn ddyddiol.
- Dylai'r holl ddillad gwely fod yn lân, a dylid darparu digon ohonynt, gan ddibynnu ar y tymor ac anghenion gwesteion.
- Fel canllaw dylai pob gwely naill ai fod ag: a) dwy gynfas, dwy flanced a gorchudd gwely, neu b) duvet â gorchudd duvet ac un neu ddwy gynfas.
- Dylid darparu dau obennydd mewn casys gobennydd unigol ar gyfer pob unigolyn (mae un gobennydd yn dderbyniol ar gyfer un seren). Os darperir gobenyddion neu duvets plu, dylai dewis arall nad yw'n debygol o achosi alergedd fod ar gael ar gais.
- Dylai'r holl ddillad gwely (cynfasau, casys gobennydd a gorchuddion duvet ac ati) fod yn ffres i bob gwestai newydd. Dylid eu newid o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfer gwesteion sy'n aros.
- Dylai blancedi a gobenyddion ychwanegol fod ar gael ar gais.

Fel ymarfer gorau, awgrymwn eich bod hefyd yn defnyddio gorchudd i amddiffyn gobenyddion a bod unrhyw obenyddion a dillad gwely ychwanegol yn lân, yn ffres ac, os yw'n bosibl, wedi eu lapio.

2.4.4 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Dylai pob ystafell wely gynnwys:

- Bwrdd, cwpwrdd neu silff ochr gwely ar gyfer pob gwely. Gall ystafelloedd dau wely rannu un ac mae gwelyau bync 75cm /2'6" wedi cael eu heithrio.
- Bwrdd gwisgo, desg ysgrifennu, bwrdd bach neu ddodrefnyn tebyg, â drych yn ei ymyl.
- Cadair neu stôl.
- Os nad oes lolfa, dylid darparu cadair esmwyth gyfforddus yn yr ystafell wely i westeion ei defnyddio wrth ddarllen ac ati. (Gellid caniatáu eithriadau i ystafelloedd unigol, os nad oes digon o le).
- Cwpwrdd dillad neu le i hongian dillad â digon o gambrenni i hongian dillad. (Nid yw rhai gwifren yn dderbyniol.)

Mae alcof â rheilen yn dderbyniol, ond nid yw stand cotiau, na bachau ar waliau neu y tu ôl i ddrysau yn dderbyniol.

- Digon o ddroriau neu silffoedd. Dylai'r droriau agor a chau'n rhwydd.
- Llenni na ellir gweld trwyddynt, bleinds neu gaeadau ar bob ffenestr, gan gynnwys drysau sydd â phaneli gwydr, ffenestri linter a ffenestri to er mwyn i westeion gael preifatrwydd ac er mwyn atal unrhyw olau rhag dod i mewn i'r ystafell o'r tu allan.

D.S. Lle bo ystafelloedd gwely wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, dylech ystyried darparu mwy o breifatrwydd â llenni net neu fleinds.

2.4.5 Ffenestri ac Awyru

- Rhaid i bob ystafell wely fod ag o leiaf un ffenestr sy'n agor â gwydr clir i ddarparu golau naturiol ac awyriad digonol. Yn gyffredinol, nid yw ystafelloedd heb ffenestri yn dderbyniol. (Gellid caniatáu eithriadau ar gyfer ystafelloedd penodol, ond dim ond os gosodir system aerdymheru.) Os yw'r ffenestri wedi eu selio, dylid darparu system awyru sydd wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Dylai ffenestri fod wedi eu gosod yn dda, dylent fod yn hawdd i'w hagor a'u cau a dylent aros ar agor.
- Dylid gosod ffitiadau diogelwch ar bob ffenestr ystafell wely y gallai rhywun ddod i mewn i'r ystafell drwyddi pan fo ar agor – er enghraifft, drysau patio neu ddrysau Ffrengig, ffenestri llawr gwaelod a ffenestri ger diangfeydd tân.
- Dylech geisio inswleiddio rhag sŵn allanol.
- Dylech ddarparu polyn i agor ffenestri Velux uchel neu ffenestri to, os nad oes ffenestri eraill yn agor.

2.4.6 Goleuo

- Dylai ystafelloedd gwely fod wedi eu goleuo'n dda a dylent fod â digon o olau naturiol.
- Dylai'r switsh rheoli ar gyfer y prif oleuadau fod wrth y drws.
- Dylid cael golau ochr gwely addas y gellir ei reoli o bob gwely ac o bob ochr i wely dwbl. Mae'n dderbyniol i ystafelloedd dau wely gael un golau ochr gwely yn y canol i'w rannu. Mae gwelyau bync 75cm/2'6" wedi eu heithrio o'r gofyniad i ddarparu golau. Dylai pob bwlb, oni bai eu bod yn fylbiau addurniadol, fod â chysgodlen neu orchudd.

2.4.7 Gwresogi

- Dylid darparu gwres digonol mewn ystafelloedd.
- Dylai gwres ychwanegol fod ar gael ar gais.

2.4.8 Lloriau

- Dylai lloriau ystafelloedd gwely fod wedi eu gorchuddio'n llwyr â charped neu orchudd llawr caled.

2.4.9 Cyfleusterau Gwneud Te a Choffi

- Cyfleusterau gwneud te/coffi ar gael ac o fewn cyrraedd rhwydd 24 awr y diwrnod naill ai yn yr ystafelloedd gwely neu mewn mannau cyhoeddus. (Mae hunanwasanaeth/peiriant gwerthu mewn man cyhoeddus yn dderbyniol). Cynhwysion hunanwasanaeth ar gyfer gwneud diodydd poeth yn cael eu cadw wedi eu lapio neu mewn cynwysyddion â chaead. Ni ddylai gwesteion orfod defnyddio tegelli ystafelloedd gwely ar y llawr.
- Dylai llaeth ffres fod ar gael ar gais.

2.4.10 Ffonau mewn Ystafelloedd Gwely

Lle darperir ffonau, rhaid arddangos cerdyn prisiau yn yr ystafelloedd gwely yn dangos y taliadau arferol am alwadau lleol, pell a rhyngwladol, defnyddio'r rhyngrwyd, defnyddio cerdyn ffôn a chysylltu â ffonau symudol.

Mae angen enghraifft o daliadau ffôn, ond nid fesul uned.

- Cost un alwad leol 5 munud ar y gyfradd frig.
- Cost un alwad leol 5 munud ar y gyfradd arferol.
- Cost un alwad bell 5 munud ar y gyfradd frig.
- Cost un alwad bell 5 munud ar y gyfradd arferol.
- Cost un alwad ryngwladol 5 munud ar y gyfradd frig.
- Cost un alwad ryngwladol 5 munud ar y raddfa arferol.

D.S. – Mae angen egluro'n glir pa fath o alwadau sy'n alwadau lleol a pha rai sy'n alwadau pell a nodi'n glir pa oriau sy'n cael eu hystyried yn oriau arferol a pha rai yw'r oriau brig.

2.4.11 Gofynion Amrywiol

Dylai pob ystafell wely gael:

- Ffordd o gloi drysau ystafelloedd gwely o'r tu mewn ac o'r tu allan, a dylai allwedd fod ar gael.

D.S. – Gallai eiddo hŷn neu eiddo sydd wedi'i restru oherwydd ei nodweddion pensaernïol gael ei eithrio os nad oes modd gosod clo ar ddrysau ystafelloedd gwely. Bydd angen hysbysu gwesteion ynglŷn â hyn pan fyddant yn archebu'r ystafell a gosod bocs cryf neu gyfleuster diogel y gellir ei gloi yn yr ystafell wely.

- Basged sbwriel. Dylai fod yn un nad yw'n debygol o fynd ar dân os caniateir smygu.
- Blwch llwch os caniateir smygu.
- Un gwydryn dŵr yfed i bob gwestai. Dylai fod yn un gwydr neu'n un wedi'i lapio y gellir ei daflu ymaith ar ôl ei ddefnyddio unwaith.
- Digon o socedi trydan a'r rheini wedi eu gosod mewn llefydd cyfleus i allu defnyddio'r holl gyfarpar trydanol a ddarperir yn ddiogel.
- Cyngor wedi'i argraffu ynglŷn â sut i gael cymorth mewn argyfwng yn y nos. Mae angen arddangos yr wybodaeth yn glir yn yr ystafell wely.
- Haearn smwddio a bwrdd smwddio ar gael ar gais a gwybodaeth am hynny yn yr ystafell wely.
- Galwadau cynnar yn y bore ar gael ar gais neu gloc larwm yn cael ei ddarparu.
- Ar gyfer ystafelloedd gwely sydd â chyfleusterau ymolchi en-suite neu ystafell ymolchi breifat, dylid darparu rheilen dyweli neu eitem gyfatebol ynghyd ag un tywel dwylo ac un tywel bath i bob unigolyn. Dylid darparu sebon ffres bob tro y mae'r ystafell yn cael ei gosod i westeion newydd. Os ydych yn darparu peiriannau sebon hylif, bydd angen i chi roi sylw penodol i'w glendid a'u hylendid.

Fel ymarfer gorau, anogir pob sefydliad i arddangos cyfarwyddiadau tân clir lle bo'n briodol.

2.5 Ystafelloedd Ymolchi, Ystafelloedd Cawod a Chyfleusterau En-Suite

2.5.1 Cyffredinol

Rhaid i bob sefydliad ddarparu:

- Dŵr poeth ar bob adeg resymol.
- O leiaf un ystafell ymolchi neu ystafell gawod â basn ymolchi i bob chwe gwestai.
- O leiaf un toiled i bob chwe gwestai, ar wahân i ystafell ymolchi neu ystafell gawod.

Pan fo gan sefydliad bedwar neu lai o welyau ar gyfer gwesteion sy'n talu, mae'n dderbyniol i ystafell ymolchi neu ystafell gawod gael ei chyfuno â basn ymolchi a thoiled.

- Os oes unrhyw ystafelloedd gwely ar gyfer gwesteion heb fasnau ymolchi, dylid cael basn golchi dwylo yn y tŷ bach.
- Yn ychwanegol at hyn, lle nad oes mwy na chwech o westeion yn aros mewn sefydliad, gan gynnwys y perchnogion, mae'n dderbyniol i'r gwesteion a'r perchnogion rannu cyfleusterau. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu na ellir cael gradd uwch na Dwy Seren.
- Lle bo trefniadau rhannu, dylai'r perchnogion a'u teulu sicrhau nad ydynt yn treulio llawer o amser yn yr ystafell ymolchi yn y bore h.y. tan tua canol y bore. Dylent hefyd fynd â'u heiddo personol o'r ystafell ymolchi.

2.5.2 Cyfleusterau En-Suite

Beth yw cyfleusterau en-suite?

Mae cyfleusterau en-suite yn cynnwys bath neu gawod, tŷ bach a basn ymolchi **mewn ystafell ar wahân**, wedi ei chysylltu ag ystafell wely, y ceir mynediad uniongyrchol atynt o'r ystafell wely.

Rhaid i'r toiled bob amser fod mewn ystafell ar wahân sydd wedi ei hawyru'n briodol. Os yw ciwbicl y gawod wedi'i leoli yn yr ystafell wely yna dylid darparu awyriad ychwanegol ar gyfer hyn.

Mae'n dderbyniol i'r basn ymolchi a'r gawod fod yn yr ystafell wely, cyn belled bod y toiled mewn ystafell ar wahân, yn yr ystafell wely. Nid yw llety sydd â chiwbiclau cawod yn yr ystafelloedd gwely'n debygol o gael gradd ansawdd uchel.

Os yw ciwbicl y bath neu'r gawod wedi'i leoli yn yr ystafell wely, rhaid dweud hynny wrth y gwesteion pan fyddant yn archebu'r ystafell. **Ni ddylid disgrifio hyn fel cyfleusterau en-suite**.

2.5.3 Darpariaeth En-Suite

- **Un i Dair Seren** – nid oes gofyniad sylfaenol ar gyfer cyfleusterau en-suite. Fodd bynnag, lle bônt yn cael eu darparu bydd eu hansawdd yn cael ei asesu fel rhan o'r asesiad o ansawdd yr ystafell ymolchi.
- I gael gradd **Pedair Seren**, bydd angen i chi ddarparu cyfleusterau en-suite neu gyfleusterau bath/cawod preifat yn o leiaf 50% o'r ystafelloedd gwely.
- I gael gradd **Pum Seren**, rhaid i bob ystafell wely gael cyfleusterau en-suite neu gyfleusterau bath a/neu gawod preifat.

2.5.4 Cyfleusterau Ystafelloedd Ymolchi/Cawod Preifat

Beth yw cyfleusterau preifat?

Mae ystafell ymolchi breifat yn un lle mae'r bath neu'r gawod, y toiled a basn ymolchi efallai wedi eu neilltuo ar gyfer defnydd deiliaid un ystafell wely benodol yn unig.

Dylai'r ystafell ymolchi fod ar yr un llawr â'r ystafell wely a dylai fod yn rhesymol agos ati. Dylai'r drws fod yn un y gellir ei gloi a dylid darparu allwedd. Nid yw mynediad i ystafell ymolchi neu ystafell gawod o'r ystafell wely drwy lolfa, ystafell fwyta ac ati yn dderbyniol.

Beth yw cyfleusterau cyhoeddus?

Mae cyfleusterau cyhoeddus yn rhai a allai fod yn cael eu rhannu gan ddeiliaid mwy nag un ystafell wely ac efallai y perchnogion neu eu teulu. Nid yw mynediad i ystafell ymolchi a/neu ystafell gawod o ystafell wely drwy lolfa, ystafell fwyta ac ati yn dderbyniol.

2.5.5 Gosodiadau a Ffitiadau ar gyfer pob Ystafell Ymolchi/Gawod (Cyhoeddus, Preifat neu En-Suite)

Dylai pob ystafell ymolchi a/neu gawod gael:

- Bath neu gawod. Os darperir cawod dylid darparu sgrin neu len, oni bai ei bod wedi ei dylunio yn y fath fodd fel nad yw hyn yn ofynnol.
- Toiled â chaead arno. Peth i ddal papur toiled ynghyd â phapur toiled.
- Sebon ffres yn cael ei ddarparu ar gyfer pob gwestai newydd. *Os defnyddir peiriannau sebon hylif, mae angen i chi roi sylw penodol i'w glendid a'u hylendid.*
- Bin â gorchudd/bin agored ynghyd â bagiau gwaredu tyweli misglwyf.
- Clo/bollt ar yr ochr fewn. Mae angen i ystafelloedd ymolchi preifat ar wahân gael clo ac allwedd fel mai dim ond y gwestai sy'n gallu defnyddio'r ystafell ymolchi ac y gall adael ei eiddo yno gan wybod y byddant yn ddiogel.

D.S. – Nid oes angen clo mewnol ar gyfer drysau cyfleusterau en-suite.

- Gorchudd llawr priodol. *Mae'r ymarfer gorau'n awgrymu bod gorchudd llawr y gellir ei olchi'n fwy hylan na charped.*
- Llenni neu fleinds na ellir gweld trwyddynt ar gyfer y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd a chyfforddusrwydd.
- Ffan echdynnu ar gyfer awyriad digonol neu ffenestr sy'n agor.
- Gwres digonol. Rhaid i bob ystafell ymolchi sydd â ffenestr allanol gael ei gwresogi.
- Bachyn ar gyfer dillad.
- Dylai mat bath gwrth-lithr fod ar gael ar gais pan nad yw gwaelod cawod a bath o ddeunydd gwrth-lithr.
- Rheilen dyweli neu eitem gyfatebol. Nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond mae cylch tyweli neu rac hongian ar reiddiadur yn dderbyniol.
- Tywel dwylo a thywel bath glân i bob gwestai. Oni bai fod polisi amgylcheddol sy'n cael ei hysbysebu'n glir dylent gael eu newid o leiaf bob tri diwrnod.
- Mat bath glân bob tro y mae'r ystafell yn cael ei gosod i westeion newydd.
- Soced eilliwr trydan neu addasydd ar gael o fewn cyrraedd rhwydd i'r drych. Gallai fod wedi'i leoli mewn ystafell wely neu ystafell ymolchi.
- Mae angen i bob ystafell ymolchi fod wedi'i goleuo'n dda gan olau â gorchudd.
- Dylai dŵr poeth ar gyfer bath fod ar gael ar bob adeg resymol.

2.5.6 Ystafelloedd Ymolchi Cyhoeddus/Ystafelloedd Ymolchi sy'n cael eu Rhannu

- Nid yw mynediad i ystafelloedd ymolchi/cawod o ystafell wely drwy lolfa, ystafell fwyta ac ati yn dderbyniol.

Yn ogystal â'r gofynion a restrwyd yn gynharach dan 2.5.5 Gosodiadau a Ffitiadau ar gyfer pob Ystafell Ymolchi/Gawod, dylai pob ystafell ymolchi a/neu ystafell gawod gyhoeddus gael:

- Gwres.
- Mat bath sy'n cael ei newid yn ddyddiol.
- Sebon yn ogystal â'r sebon sy'n cael ei ddarparu yn yr ystafelloedd gwely.
- Cyfleusterau sychu dwylo.
- Mae angen i bob ystafell ymolchi gyhoeddus fod wedi'i goleuo'n dda.

2.5.7 Tai Bach i Westeion (Rhannu)

- Nid yw mynediad i dai bach ar gyfer gwesteion o ystafell wely drwy lolfa, ystafell fwyta ac ati yn dderbyniol.

Gosodiadau a Ffitiadau

Mae angen i bob tŷ bach ar gyfer gwestai gael:

- Toiled â chaead arno.
- Peth i ddal papur toiled ynghyd â phapur toiled.
- Bin â gorchudd/bin agored â bagiau i gael gwared ar dyweli misglwyf.
- Basn golchi dwylo (nid basn ymolchi o reidrwydd) a dŵr poeth, sebon a thywel dwylo/cyfleusterau sychu os nad oes gan bob ystafell wely ar gyfer gwesteion fasn ymolchi.
- Golau â gorchudd.
- Ffan echdynnu ar gyfer awyriad digonol neu ffenestr sy'n agor.
- Llenni neu fleinds na ellir gweld trwyddynt ar gyfer y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd a chyfforddusrwydd.
- Clo neu follt ar yr ochr fewn.

2.5.8 Basnau Ymolchi mewn Ystafelloedd Gwely

D.S. I gael gradd Tair Seren mae angen basn ymolchi ym mhob ystafell wely – basn ar ei ben ei hun neu mewn uned ymolchi.

Gosodiadau a Ffitiadau

- Y maint lleiaf sy'n cael ei argymell yw un sydd â'i du mewn yn 36cm x 24cm/14" x 9.5". Bydd ei addasrwydd yn dibynnu ar ei siâp, lleoliad y tapiau ac ati.

Lle darperir basn ymolchi mewn ystafell wely dylid cael:

- Drych â golau uwch ei ben neu yn ymyl.
- Rheilen dyweli neu eitem gyfatebol. Nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond mae cylch tyweli neu rac hongian ar reiddiadur gerllaw yn dderbyniol.
- Silff wedi'i gosod yn ddiogel yn agos at y basn ymolchi.
- Tywel dwylo glân neu gyfleusterau sychu dwylo.

- Sebon ffres. Mae peiriant hylif sebon yn dderbyniol.

2.6 Prydau Bwyd i Westeion

2.6.1 Brecwast

- Rhaid i'r holl fwyd fod wedi'i goginio'n iawn a'i baratoi a'i gyflwyno'n ofalus.
- Dylai brecwast wedi'i goginio neu frecwast Ffrengig fod ar gael. Os nad oes brecwast wedi'i goginio ar gael, rhaid i chi ddweud hynny wrth westeion ar yr adeg y maent yn archebu ystafell a nodi hynny ar wefan yr eiddo ac ar wefannau trydydd partïon.

I gael y graddau sêr uwch, disgwylir mwy o ddewis a gwell ansawdd.

- Dylai perchennog a/neu staff fod ar gael amser brecwast i ymateb i anghenion gwesteion, e.e. clirio platiau, ail-lenwi platiau bwffe a chynnig mwy o de a choffi.
- Lle bo brecwast yn cael ei weini yn yr ystafelloedd gwely, dylai'r gwasanaeth fod o safon gyfatebol neu well na phe bai'n cael ei weini mewn ystafell frecwast. Mae hyn yn cynnwys gweini te neu goffi.
- Mae'n dderbyniol cynnig brecwast wedi'i goginio ar ffurf bwffe.

2.6.2 Cinio gyda'r Nos – Os yw'n cael ei Ddarparu

- Rhaid i'r holl fwyd fod wedi'i goginio'n iawn a'i baratoi a'i gyflwyno'n ofalus.
- Os gofynnir am hynny ar adeg archebu'r ystafell rhaid sicrhau bod o leiaf un dewis llysieuol ar gael.

2.7 Mannau Cyhoeddus

2.7.1 Lolfeydd, Barrau, Mannau Bwyta, Tai Bwyta, Cynteddau, Grisiau, Coridorau a Phen Grisiau

- Dylai ystafell fwyta neu le brecwast fod ar gael oni bai fod prydau bwyd yn cael eu gweini yn yr ystafelloedd gwely yn unig, ac os felly bydd angen dweud hynny wrth y gwesteion pan fyddant yn archebu ystafell a nodi hynny ar wefan yr eiddo ac ar wefannau trydydd partïon.
- Lle na ddarperir setiau teledu yn yr ystafelloedd gwely, dylid darparu mynediad i lolfa sydd â chadeiriau esmwyth cyfforddus a theledu lliw heb unrhyw dâl ychwanegol. Os oes gennych bolisi Llonyddwch a Thawelwch dylai hynny gael ei nodi'n glir yn eich taflen ac ar eich gwefan, a dylech ddweud hynny wrth westeion pan fyddant yn archebu ystafell. Gellir caniatáu eithriadau fel y gwêl y corff asesu orau.
- Dylai coridorau a grisiau fod mewn cyflwr da a heb rwystrau.
- Dylai'r holl fannau cyhoeddus fod wedi'u goleuo'n ddigonol i sicrhau diogelwch a chyfforddusrwydd. Dylai grisiau a phen grisiau hefyd fod â digon o olau yn y nos. Dylai pob man cyhoeddus fod â gwres digonol.

2.7.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Hygyrchedd	Sicrhau manylion y strategaeth ar gyfer gadael yr adeilad mewn tân a'r trefniadau ar gyfer mynd allan mewn argyfwng i bobl anabl. Cofio ei bod yn bosibl na fydd gwesteion sydd â nam ar eu clyw yn clywed rhywun yn curo ar y drws. Cofnodi lleoliad ystafell ac unrhyw ofynion penodol a'u trosglwyddo i'r staff ar adeg newid shifft.

- Dylai'r brif fynedfa fod wedi'i dynodi'n glir a dylai'r drws fod wedi'i oleuo.
- Dylech sicrhau lefel uchel o ddiogelwch personol a diogelwch eiddo. Dylid diweddaru'r holl wybodaeth am drefniadau argyfwng.
- Rhaid cael manylion printiedig ym mhob ystafell wely yn egluro wrth westeion sut i alw am help os bydd argyfwng yn y nos. Os yw'r perchennog neu'r staff ymaith o'r safle dros dro neu'n byw yn rhywle ar wahân i'r eiddo, rhaid sicrhau bod modd i'r gwesteion alw am gymorth personol 24 awr y diwrnod, heb orfod defnyddio eu ffôn symudol eu hunain. Os yw'r signal ffôn symudol yn wael, neu os nad oes signal, dylid darparu dull dibynadwy arall o gysylltu i'r gwesteion. Rhaid i weithredwyr (neu gynrychiolydd dynodedig) fod ar gael i ddod i'r safle yn gyflym os bydd argyfwng.
- Dylech gymryd camau digonol i sicrhau diogelwch gwesteion a'u heiddo. Yn fwyaf arbennig, mae angen i chi ystyried diogelwch personol a diogelwch eiddo gwesteion sy'n aros mewn ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod.
- Er diogelwch gwesteion, dylai pob maes parcio gael ei oleuo'n ddigonol.

2.7.3 Y Tu Allan i Adeiladau a Chyflwr Adeiladau a Chyfarpar

- Rhaid cynnal adeiladau, eu gosodiadau, eu ffitiadau a'u haddurnwaith allanol mewn cyflwr da a glân a rhaid iddynt fod yn addas i'r diben y bwriadwyd hwy ar ei gyfer. Dylai'r holl gyfarpar trydan neu nwy gael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel a dylent fod yn gweithio'n dda.

2.8 Rhandai

- Os ydych yn cynnig llety i westeion mewn rhandy ar wahân neu â mynedfa allanol ar wahân, rhaid i chi ddweud wrthynt pan fyddant yn archebu lle. Rhaid i chi hefyd ddweud wrthynt os oes unrhyw newid i archeb sy'n ymwneud â rhandy neu fynedfa allanol ar wahân. Dylech hefyd ddweud wrthynt ym mhle mae'r rhandy.
- Rhaid i lwybrau neu rodfeydd sy'n arwain at y rhandy fod mewn cyflwr da, ag arwyneb cadarn ac wedi eu goleuo'n ddigonol.

3.0 Canllawiau Ansawdd

3.1 Cyffredinol

3.1.1 Beth yw Ansawdd?

Pan fyddwn yn asesu ansawdd byddwn yn ystyried y canlynol:

- Ansawdd hanfodol – gwerth cynhenid eitem.
- Cyflwr – ymddangosiad eitem a gwaith cynnal a chadw. A yw'n addas i'r diben?

- Cyfforddusrwydd ffisegol a phersonol – a yw ansawdd eitem yn lleihau cyfforddusrwydd y defnyddiwr mewn unrhyw ffordd?
- Sylw i fanylder – y gofal sydd i'w weld yn cael ei gymryd i sicrhau bod profiad y gwestai'n un arbennig a bod yr un safonau uchel yn berthnasol i bawb.
- Y dewis sydd ar gael i westeion a pha mor hawdd i'w defnyddio yw'r ystafell – ychwanegir at brofiad y gwestai drwy gynnig dewis – boed yn ddewis o ddiodydd poeth yn ei ystafell neu'n ddewis o dymheredd ystafell. Mae hyn yn cael ei wella hefyd gan hwylustod yr ystafell a'i chynnwys i'r gwestai.
- Cyflwyniad – y ffordd y mae'r ystafell a'i chynnwys wedi cael ei chyflwyno pan mae'r gwesteion yn cyrraedd ac yn ystod eu harhosiad.

3.1.2 Graddio – Asesiad ar gyfer Gradd Ansawdd

Bydd sefydliadau sy'n cael eu hasesu'n cael gradd ansawdd derfynol ar raddfa o **Un** i **Bum Seren**.

Mae ymchwil defnyddwyr i gyfforddusrwydd gwesteion yn dangos mai glendid, lletygarwch, cyfeillgarwch ac ansawdd brecwast, ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi yw'r elfennau pwysicaf. Mae ein hasesiadau ansawdd yn seiliedig ar y ffactorau hyn yn bennaf. Pan fydd ein haseswyr yn ymweld â'ch eiddo, byddant yn gwerthuso pob agwedd ar y llety a'r gwasanaeth a ddarperir gennych.

3.1.3 Graddio – Asesu'r Sgôr Ansawdd

Yn ystod ein hasesiad byddwn yn rhoi sgôr ansawdd sy'n cyfateb i radd Sêr ar gyfer pob agwedd ar eich busnes y byddwn yn ei gwerthuso, fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adrannau isod.

Mae hyn yn rhoi sgôr ganrannol derfynol ar gyfer ansawdd. Byddwn yn pennu eich gradd ansawdd drwy gymharu'r ganran hon â chyfres o Fandiau Graddau Ansawdd fel sy'n cael eu rhestru isod. Y radd hon fydd eich gradd Sêr cyn belled eich bod yn bodloni'r safon berthnasol yn y meysydd ansawdd allweddol: glendid, lletygarwch, ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi a brecwast. Rhaid bodloni'r holl Ofynion Mynediad Sylfaenol perthnasol eraill hefyd. Felly, er enghraifft, i gael gradd Pedair Seren, rhaid i bob un o'r meysydd allweddol gyrraedd lefel ansawdd Pedair Seren a rhaid i'r ganran derfynol fod rhwng 70% ac 84%.

3.1.4 Bandiau Graddio

Gradd Sêr	Canrannau Mynediad
1 Seren	30 – 46%
2 Seren	47 – 54%
3 Seren	55 – 69%
4 Seren	70 – 84%
5 Seren	85 – 100 %

3.1.5 Dangosyddion Ansawdd

Rhoddir enghreifftiau o'r ansawdd a ddisgwylir er mwyn cyrraedd lefel ansawdd o **Un** i **Bum Seren** ar gyfer pob maes Asesu.

Rydym yn defnyddio ymadroddion fel 'derbyniol', 'da', a 'da iawn' i ddynodi lefelau ansawdd esgynnol mewn termau cyffredinol yn unig. Maent yn fwriadol amhenodol gan ein bod yn cydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellir eu cynnwys. Mae'r Dangosyddion Ansawdd yn cynrychioli disgwyliadau nodweddiadol ar gyfer cyflwr ac ansawdd hanfodol. **Nid ydynt yn derfynol nac yn hollgynhwysfawr**.

3.2 Glendid

Cynaliadwyedd	Os yw'n bolisi i baratoi ystafelloedd gwesteion cyn iddynt gyrraedd drwy adael goleuadau ymlaen, ystyriwch wneud y gweithgaredd hwn yn llawer hwyrach yn y diwrnod neu ddim o gwbl. Gellid defnyddio hysbysiadau cytundeb golchi tyweli a dillad gwely, lle gofynnir i westeion nodi a ydynt yn dymuno i'w dillad gwely a'u tyweli gael eu golchi'n llai aml. Gellid cynhyrchu arwyddion yn fewnol neu'n allanol.

Hygyrchedd	Peidiwch â symud celfi ac eitemau personol yn yr ystafell ymolchi neu'r ystafell wely oherwydd gan amlaf byddant wedi cael eu rhoi mewn mannau hawdd eu cyrraedd i'r gwestai. Gwnewch yn siŵr nad yw cyfarpar cadw tŷ'n achosi rhwystrau y tu allan i ddrysau ystafelloedd ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Pob arwyneb mewn ystafelloedd yn y sefydliad i fod yn lân a heb lwch arnynt. Gan fod glendid o'r pwys mwyaf i'r defnyddiwr, ar bob gradd sêr, mae safonau glendid cyson yn hanfodol. • Pob ystafell i'w glanhau â sugnwr llwch yn ddyddiol. • Mannau cyhoeddus i'w cadw'n daclus.
Dwy Seren	• Safon eithaf da yn gyffredinol, ond efallai fod rhai mannau'n cael eu hesgeuluso.
Tair Seren	• Rhywfaint o dystiolaeth o sylw i fanylder yn enwedig ar lefelau hel llwch uchel ac isel a mannau a allai fod yn dod i gysylltiad uniongyrchol â gwesteion e.e. dillad gwely a llestri, toiledau a baths. • Carpedi, llenni ac ati'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. • Dim annibendod i'w weld yn unman. • Arogl ffres a glân ym mhobman.
Pedair Seren	• Arwynebau'n lân ac yn cael eu sgleinio'n aml. • Carpedi, llenni ac ati'n cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd. • Mwy o sylw i fanylder â safonau cyffredinol uchel. • Blancedi a gobenyddion ychwanegol yn cael eu cadw'n hylan yn yr ystafelloedd gwely.
Pum Seren	• Popeth yn edrych fel newydd. • Arwynebau'n sgleinio. Dim ôl staen na marciau. Tystiolaeth o lanhau trylwyr. • Carpedi, llenni ac ati fel newydd. • Dillad gwely yn edrych yn lân ac wedi eu smwddio'n dda.

3.3 Lletygarwch a Chyfeillgarwch

Hygyrchedd	Gofyn oes gan y gwestai unrhyw anghenion mynediad. Croesawu cŵn cymorth [rhwymedigaeth gyfreithiol]. Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn cymorth i ddarparu annibyniaeth. Gweld y ci fel rhan o'r unigolyn. Sicrhau bod gwesteion sy'n nodi bod ganddynt anabledd, e.e. nam ar eu golwg, yn cael cynnig taith dywys i ymgyfarwyddo â'r llety. Darparu cloc larwm sy'n crynu i westeion sydd â nam ar eu clyw. Darparu gwybodaeth mewn fformatau amrywiol, e.e. print bras, Braille, lluniau, ffeiliau MP3 a disgrifiad clywedol ar wefannau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ychydig o gyswllt a rhyngweithiad â gwesteion.
Dwy Seren	• Ymdrin â phob gwestai yn gyflym ac mewn modd cwrtais a chymwynasgar.
Tair Seren	• Agwedd gadarnhaol a chyfeillgar gan berchnogion a staff. Y staff wedi eu gwisgo'n drwsiadus. • Argraff gyntaf ac olaf dda a gwesteion yn cael eu croesawu â gwên.
Pedair Seren	• Gwasanaeth gofalus, mwy personol, â lefelau da iawn o ofal cwsmeriaid e.e. defnyddio enw'r gwestai. • Agwedd ragweithiol at westeion ac ymdrech i sgwrsio a rhyngweithio'n gymdeithasol. • Gwneud i westeion deimlo'n gartrefol braf â chroeso cynnes a hwyliog pan maent yn cyrraedd.
Pum Seren	• Cyfarch gwesteion yn bersonol pan maent yn cyrraedd. • Bod yn ymwybodol o anghenion gwesteion unigol, rhagweld eu hanghenion, a dangos nad oes dim byd yn ormod o drafferth. • Cynnig gwasanaethau ychwanegol fel llaeth ffres, defnyddio'r ffôn, gwybodaeth am yr ardal ac argymell lleoedd i fynd allan i fwyta ac ati. • Argraff gyntaf ac olaf ragorol.

3.4 Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

3.4.1 Archebu Lle a Chyrraedd

Cynaliadwyedd	Cynnwys dewisiadau cludiant cyhoeddus mewn deunydd hyrwyddo a gwybodaeth wrth archebu lle. Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cyfarwyddo'n llawn a'u diweddaru ynglŷn â pholisi twristiaeth gynaliadwy'r llety, yn enwedig staff y dderbynfa, concierge a staff yr ystafell fwyta.

Hygyrchedd	Cynnig dewis o ffyrdd i'ch gwesteion gysylltu â chi e.e. ffôn, ffacs, llythyr, e-bost a darganfod sut mae pobl sydd â nam ar eu clyw yn defnyddio Text Relay yn www.textrelay.org Darparu cloc larwm sy'n crynu i westeion sydd â nam ar eu clyw. Darparu gwybodaeth mewn fformatau amrywiol, e.e. print bras, Braille, lluniau, ffeiliau MP3 a disgrifiad clywedol ar wefannau. Gofyn bob amser a oes gan yr ymholwr neu unrhyw un o'r gwesteion yn y grŵp unrhyw ofynion mynediad penodol. Hyrwyddo eich Datganiad Hygyrchedd. Mae hyfforddiant penodol ar gael i staff ynglŷn â sut i groesawu gwesteion o bob math, e.e. Welcome All a WorldHost Customers with Disabilities. Ystyried dysgu cyfathrebu drwy Iaith Arwyddion syml (BSL).

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Cofnodi manylion sylfaenol gwesteion pan maent yn archebu lle. • Gallai mynediad fod yn gyfyngedig pan fo gwesteion yn cyrraedd. • Cofrestru gwesteion yn ôl y galw. • Cyfeirio gwesteion i'w hystafelloedd.
Dwy Seren	• Ymdrin â gwesteion mewn modd cymwys wrth gymryd archebion dros y ffôn a chymryd ystod ehangach o fanylion, e.e. enwau gwesteion, cyfeiriadau, rhif ffôn, dyddiadau'r arhosiad, nifer yr ystafelloedd sengl/dwbl sydd eu hangen ac ati. • Hysbysu gwesteion ynglŷn ag unrhyw gyfyngiadau mynediad pan fyddant yn archebu lle. • Trefniadau cofrestru dibynadwy.
Tair Seren	• Dull trefnus o ymdrin ag ymholiadau gwesteion, archebion, gohebiaeth, cwynion ac ati. • Parodrwydd i helpu gwesteion pan fyddant yn cyrraedd.
Pedair Seren	• Trefniadau archebu cymwys ac effeithlon a chyfarwyddiadau'n cael eu cynnig. • Hebrwng i'r ystafelloedd gwely a dangos ble mae'r mannau cyhoeddus. • Cynnig help â bagiau.
Pum Seren	• Y ffôn yn cael ei ateb cyn pum caniad fel arfer. • Ymdrin ag archebion mewn modd proffesiynol sy'n gwneud i westeion deimlo'n gartrefol ac yn ffyddiog bod eu manylion wedi cael eu cofnodi'n gywir. • Llythyr cadarnhau a chyfarwyddiadau'n cael eu hanfon drwy'r post/e-bost/testun. • Dangos i'r gwesteion sut i ddod o hyd i'w hystafelloedd a helpu â'u bagiau. Egluro cyfleusterau'r llety a'r ystafell wely. • Defnydd priodol o enw gwestai. • Cynnig lluniaeth i westeion pan fyddant yn cyrraedd.

3.4.2 Cinio gyda'r Nos (os yw'n cael ei weini) a Gwasanaethau Cyffredinol

Hygyrchedd	Ceisio bod yn hyblyg ag amser prydau bwyd er mwyn helpu pobl ddiabetig i reoli lefel y siwgr yn eu gwaed. Cynnig cymorth i westeion â bwffe hunanwasanaeth lle bo'n briodol.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Sgiliau cymdeithasol a sgiliau gweini digonol. • Byrddau'n cael eu gosod yn briodol ar gyfer y pryd sy'n cael ei weini.
Dwy Seren	• Gwasanaeth cymwys ag agwedd gymwynasgar. • Gwybodaeth resymol am fwyd a diod.
Tair Seren	• Ymateb cyflym i geisiadau am wasanaethau ychwanegol fel haearn smwddio a bwrdd smwddio, llaeth ffres ac ati. • Mewn sefydliadau mwy, ymdrinnir â phob cais ac unrhyw gyswllt â'r dderbynfa neu'r barrau yn effeithlon mewn modd cyflym a phroffesiynol. • Lle na ddarperir pryd min nos, darperir cymorth, ar gais, i ddod o hyd i le i fwyta/yfed. • Lle bo pryd min nos yn cael ei weini, mae eglurhad llafar neu ysgrifenedig o'r seigiau ar gael. • Gwybodaeth dda am fwyd a diod. • Y pryd bwyd yn cael ei weini'n dda, heb oedi a heb ruthro.
Pedair Seren	• Parodrwydd i ddarparu gwasanaethau ychwanegol fel darparu llaeth ffres ar gais neu ar yr hambwrdd te. • Cynnig help yn ddigymell i ddod o hyd i le i fwyta neu yfed. • Gwybodaeth o safon uchel am fwyd a diod. • Gwasanaeth â mwy o sylw e.e. cynnig bara a dŵr, clirio'r bwrdd yn gyflym a gwneud yn siŵr bod y cwsmer yn fodlon.
Pum Seren	• Lle na chynigir pryd min nos, darperir gwybodaeth fanwl am leoedd bwyta lleol a/neu fwydlenni. • Cynnig gwasanaethau ychwanegol yn rhagweithiol e.e. cynhesu a goleuo ystafell wely yn y gaeaf cyn i westai gyrraedd. Gwasanaeth effeithlon â lefelau uchel o sgiliau technegol a rhagweld anghenion gwesteion. • Disgrifiadau cynhwysfawr o seigiau sydd ar gael a phenderfyniadau da ynglŷn ag amseriad gweini'r gwahanol gyrsiau. • Y perchnogion a'r staff yn gallu rhoi cyngor i'r gwesteion ynglŷn â'r fwydlen a'r rhestr win (os darperir un).

3.4.3 Brecwast

Hygyrchedd	Ceisio bod yn hyblyg ag amser prydau bwyd er mwyn helpu pobl ddiabetig i reoli lefel y siwgr yn eu gwaed.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Sgiliau cymdeithasol a sgiliau gweini digonol. • Byrddau'n cael eu gosod yn briodol ar gyfer y pryd sy'n cael ei weini.

Dwy Seren	• Gwasanaeth cymwys ag agwedd gymwynasgar, ymwybyddiaeth fuan bod gwesteion wedi cyrraedd yr ystafell frecwast. • Gwybodaeth resymol am yr hyn sy'n cael ei gynnig.
Tair Seren	• Platiau brecwast bwffe'n cael eu hail-lenwi. • Eglurhad llafar neu ysgrifenedig o'r dewisiadau sydd ar gael i frecwast. • Gwybodaeth dda am gynnyrch. • Gwasanaeth bwyd da, heb oedi na rhuthro.
Pedair Seren	• Dewis eitemau brecwast safonol yn y bore wrth y bwrdd brecwast, nid y diwrnod cynt. Gwybodaeth o safon uchel am fwyd. Gwasanaeth â mwy o sylw e.e. cynnig diodydd poeth a thost. • Clirio byrddau'n gyflym a gwneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn fodlon.
Pum Seren	• Bwydlenni glân, wedi eu cyflwyno'n dda • Gwasanaeth effeithlon â lefelau uchel o sgiliau technegol a rhagweld anghenion gwesteion. • Disgrifiadau cynhwysfawr o seigiau sydd ar gael a phenderfyniadau da ynglŷn ag amseriad gweini'r gwahanol gyrsiau. • Gwasanaeth â llawer iawn o sylw gan gynnig diodydd poeth ffres, tost ffres ac ati.

3.4.4 Ymadael

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gwasanaeth digonol pan fo gwesteion yn ymadael heb lawer o gyswllt â hwy. • Darparu bil ar gais.
Dwy Seren	• Dim oedi diangen i'r gwesteion pan fyddant yn ymadael. • Y perchnogion a'r staff yn barod i helpu os yw'r bil yn aneglur neu'n anghywir.
Tair Seren	• Trefniadau effeithlon ar gyfer ymadawiad gwesteion. • Bil cywir wedi'i baratoi ymlaen llaw cyn i'r gwesteion ymadael.
Pedair Seren	• Sylw cyflym pan ofynnir amdano. • Y perchnogion a'r staff yn gyfarwydd â'r holl ddulliau talu lle bo'n briodol. • Cyfnewid cyfarchion pan fo gwesteion yn ymadael.
Pum Seren	• Ymwybyddiaeth bod gwesteion sy'n ymadael yn barod i dalu, a bod y perchnogion neu'r staff yn sicrhau eu bod ar gael. • Yr holl fanylion ar y bil yn gywir ac wedi eu cyflwyno a'u hegluro'n glir. • Gofyn i'r gwesteion a ydynt wedi mwynhau eu harhosiad. • Cynnig cymorth â bagiau, a chynnig cyfarwyddiadau i'r gyrchfan nesaf.

3.5 Y Tu Allan

3.5.1 Adeiladau, Ymddangosiad a Chyflwr

Cynaliadwyedd	Ar gyfer tiroedd, gerddi a libartau, gallai sefydliadau ystyried defnyddio deunyddiau sy'n gydnaws â'r amgylchedd lleol ac â nodweddion ffisegol daearyddiaeth a daeareg yr ardal ac oed yr adeiladau. Ystyried defnyddio mathau lleol o flodau, planhigion ac ati. Os yw'n bosibl, ac os oes maes parcio, dylid darparu man codi a gollwng wedi'i ddynodi'n glir ar gyfer cludiant cyhoeddus, fel tacsis, bysiau a/neu goetsys.

Hygyrchedd	Darparu lle i gŵn cymorth gael rhedeg yn rhydd ac ati ar dir yr eiddo neu ddynodi lle o'r fath yn y cyffiniau. Sicrhau nad oes rhwystrau, cerrig, mwsogl, rhew a dail ar y llwybrau a bod yr arwynebau'n gadarn ac mewn cyflwr da. Sicrhau bod unrhyw nodweddion parhaol ar y ffordd yn ddiogel yn eu lle – e.e. potiau blodau a cherfluniau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Tu allan adeiladau mewn cyflwr da a glân. • Yr eiddo'n gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol.
Dwy Seren	• Taclusrwydd cyffredinol, gan gynnwys bocsys blodau ar y ffenestri, basgedi crog, tybiau ac ati lle bo'n briodol. • Arwyddion o heneiddio a diffygion wedi'u cyfyngu i nifer fach o fannau. • Tai allan yn edrych yn daclus.
Tair Seren	• Yr eiddo a'r tai allan wedi eu cynnal a'u cadw'n dda. Efallai fod rhywfaint o ôl tywydd naturiol i'w weld. • Defnydd deniadol o focsys blodau ar ffenestri, basgedi crog a thybiau lle bo'n briodol. • Arwyddion, os oes rhai, yn cael eu cynnal mewn cyflwr da.
Pedair Seren	• Gwaith cerrig a phaent yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, ond mae rhywfaint o ôl tywydd naturiol yn dderbyniol. • Ychydig o nodweddion allanol ychwanegol i wella ymddangosiad yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys bocsys blodau ar y ffenestri, yn enwedig mewn eiddo heb ardd.
Pum Seren	• Safonau cynnal a chadw allanol rhagorol, gan gynnwys tai allan ac arwyddion, gan ystyried oed yr adeilad. • Gwaith paent ffres, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda mewn adeilad newydd. Dim staeniau a gwaith cerrig hyll mewn adeiladau hŷn. • Ychwanegu nodweddion fel tybiau blodau a bocsys blodau ar ffenestri lle bo'n briodol. • Nodweddion pensaernïol ac addurniadau atyniadol. • Defnydd da o oleuadau ac arwyddion clir.

3.5.2 Tir/Gerddi/Libart

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Argraff gyntaf ddigonol, e.e. biniau sbwriel a mannau storio mewn lle anamlwg ac yn cael eu cadw'n daclus. • Llwybrau diogel. • Rhodfa'n cael ei chynnal a'i chadw'n ddigonol.
Dwy Seren	• Biniau sbwriel a mannau storio mewn lle anamlwg. • Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi'n fwy atyniadol, taclus a heb sbwriel. • Dim perygl o faglu ar lwybrau.
Tair Seren	• Tiroedd, rhodfeydd, llwybrau ac ati yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. • Ymddangosiad cyffredinol atyniadol. • Goleuadau ac arwyddion effeithiol lle bo angen e.e. rhodfa hir. • Mynediad rhwydd. Arwyneb yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
Pedair Seren	• Y man lle cedwir y biniau o'r golwg ac wedi'i guddio os oes modd. • Safonau cynnal a chadw uchel yn yr ardd. Gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd taclus ar y cyfan â'r coed a'r llwyni i gyd yn cael sylw gofalus. • Tystiolaeth o rywfaint o sylw i fanylder e.e. rhodfeydd ag arwyneb da a dim tyllau, borderi lliwgar a llwybrau llydan gwastad.
Pum Seren	• Borderi a llwyni atyniadol, yn cael sylw da, llwybrau ac ymylon taclus, lawntiau mewn cyflwr da ac yn cael eu torri'n dda, gwrychoedd yn cael eu torri ac ymdrech gyffredinol i gadw'r lle'n atyniadol drwy gydol y flwyddyn. • Sylw da i fanylder, gan gynnwys tirlunio, rhodfeydd, darparu dodrefn gardd neu nodweddion pensaernïol e.e. gasibo, deildy, hafdy ac ati. • Goleuadau ac arwyddion rhagorol, wedi'u lleoli'n dda.

3.5.3 Lle Parcio (os yw'n berthnasol)

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Lle parcio diogel, eithaf hawdd mynd iddo, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol.• Mewn Gwely a Brecwast, gallai darpariaeth barcio lai ffurfiol fod yn briodol.
Dwy Seren	• Rhywfaint o ymdrech i reoli trefniadau parcio.
Tair Seren	• Mynediad da a rhwydd, ac arwyddion fel y bo'n briodol. • Digon o olau. • Agwedd fwy strwythuredig at barcio ar gyfer sefydliadau sy'n derbyn gwesteion ar wahân i rai sy'n aros.
Pedair Seren	• Lle parcio neu fannau parcio wedi eu diffinio'n glir. Arwyddion yn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch i westeion pan fyddant yn cyrraedd. Gallai hyn fod yn anffurfiol.
Pum Seren	• Digonedd o leoedd parcio ceir ac arwyddion clir. • Goleuadau da, wedi eu lleoli'n briodol. • Ystyriaeth i ddiogelwch ceir gwesteion. • Llwybrau a grisiau wedi eu goleuo'n dda yn y nos.

3.6 Mannau Cyhoeddus Eraill

3.6.1 Y Dderbynfa – Ansawdd a Chyflwr
Grisiau, Coridorau, Cynteddau a Phen Grisiau – Ansawdd a Chyflwr
Cyfleusterau Hamdden/Toiledau Cyhoeddus ac ati – Ansawdd a Chyflwr

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Yr addurno, celfi, dodrefn meddal, ffitiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr derbyniol. • Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd priodol. • Gofod digonol ar gyfer cyfforddusrwydd gwesteion. • Amgylchedd derbyniol i westeion heb ormod o sŵn, cerddoriaeth, arogleuon, anifeiliaid anwes ac ati i aflonyddu arnynt. • Unrhyw gyfleusterau adloniant mewn cyflwr derbyniol.
Dwy Seren	• Yr addurno, celfi, dodrefn meddal, ffitiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr eithaf da. • Digon o le i westeion gofrestru a thalu biliau. • Unrhyw gyfleusterau adloniant mewn cyflwr da.
Tair Seren	• Yr addurno, celfi, dodrefn meddal, ffitiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr da. • Celfi o ansawdd da, llenni sylweddol wedi eu leinio, eitemau'n cydweddu'n dda a gorchuddion lloriau o ansawdd da wedi'u gosod yn daclus. • Grisiau, pen grisiau a choridorau wedi eu goleuo'n arbennig o dda. • Gofod da i ganiatáu tipyn o gyfforddusrwydd i westeion. • Rhai cyffyrddiadau personol, e.e. llyfrau, cylchgronau, gwybodaeth am hanes lleol ac ati. • Toiledau cyhoeddus yn lân ac wedi eu hawyru'n dda.
Pedair Seren	• Yr addurno, celfi, dodrefn meddal, ffitiadau a lloriau o ansawdd a chyflwr da iawn. • Papur wal a phaent o ansawdd da iawn. Defnyddio lluniau lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau moel. • Lle i dderbynfa/desg groesawu fach lle gall gwesteion gofrestru a thalu eu biliau yn rhwydd. • Cyfleusterau adloniant, os oes rhai, i fod mewn cyflwr da iawn.
Pum Seren	• Dylai'r addurno, y celfi, y dodrefn meddal, y ffitiadau a'r lloriau fod o ansawdd a chyflwr rhagorol. Defnydd deniadol o luniau, printiau a cherfweddau addurniadol eraill fel y bo'n briodol. • Cyfforddusrwydd sylweddol ag arwyneb gwastad helaeth i westeion gofrestru a thalu eu biliau. • Celfi a defnyddiau'n cydweddu'n rhagorol. • Lefelau goleuo rhagorol ym mhob man. • Awyrgylch ffres a glân yn y man lle croesewir gwesteion. • Toiledau cyhoeddus a chyfleusterau hamdden, lle bônt yn cael eu darparu, mewn cyflwr rhagorol.

3.7 Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr

Hygyrchedd	Ceisio darparu ystafell wely ar y llawr gwaelod.

3.7.1 Addurno

Hygyrchedd	Ystyried defnyddio lliwiau gwrthgyferbyniol ar gyfer y waliau a fframiau'r drysau ac osgoi gorffeniad sgleiniog iawn, er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Addurno ymarferol a dim llawer o gydweddu. • Dim llawer o luniau a chrogluniau.
Dwy Seren	• Efallai fod yr addurniadau'n hen, ond heb ôl difrod, crafiadau na rhwygiadau.
Tair Seren	• Addurniadau mewnol yn cydweddu. • Crogluniau a gwaith paent taclus o ansawdd da. • Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda. • Defnyddio lluniau ac ati lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau moel.
Pedair Seren	• Safon yr addurno'n dda iawn â defnydd o luniau a phrintiau o ansawdd arbennig lle bo'n berthnasol. • Rhywfaint o ymdrech i guddio pibelli a gwifrau sydd wedi'u gosod ar yr wyneb.
Pum Seren	• Dylunio mewnol rhagorol, â llawer iawn o sylw i fanylder. Cydweddu patrymau, lliwiau a gweadau'n feddylgar. • Gorchuddion waliau o ansawdd arbennig â gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. • Defnydd deniadol o luniau, printiau a cherfweddau addurniadol eraill. • Efallai y rhoddir ystyriaeth i nodweddion hanesyddol ac adeiladau rhestredig.

3.7.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ystod gyfyngedig o gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ran ansawdd ac ystod. • Dim llawer o gydweddu celfi, dodrefn meddal a ffitiadau. • Ffitiadau golau a gwres yn ddigonol o ran ansawdd a diogelwch ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell wely. Pob gorchudd ffenestr wedi'i osod yn gywir, â digon o led ac uchder i gael ei dynnu dros y ffenestr gyfan.
Dwy Seren	• Mwy o gelfi'n cael eu darparu. Efallai eu bod yn hen, ond maent yn gryf ac yn addas i'r diben. Neu, efallai fod y celfi wedi bod o ansawdd rhagorol, ond eu bod yn dechrau dangos eu hoed, a bod rhywfaint o ôl traul i'w weld erbyn hyn. • Dim llawer iawn o gyfforddusrwydd i'r gwesteion. • Llenni o ansawdd gwell, yn lân ac yn hawdd i'w cau. • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr eithaf da.
Tair Seren	• Celfi o ansawdd da, mewn cyflwr cryf a defnyddiadwy. • Defnydd da o gydweddu. • Maint a nifer y llenni a'r deunyddiau yn gymesur â'r gofod sydd ar gael. • Goleuadau wedi eu lleoli'n dda ac yn rhoi lefelau da o olau. • Ffitiadau golau o ansawdd da â chysgodlenni priodol. • Llenni sylweddol wedi eu leinio.

Pedair Seren	• Celfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd da. Y celfi ddim yn newydd o reidrwydd, ond yn dal i gynnig cyfforddusrwydd sylweddol. • Llenni llawn, o bosibl ag addurniadau ychwanegol e.e. llinynnau rhwymo.
Pum Seren	• Celfi o ansawdd rhagorol, yn hen neu'n atgynhyrchiadau modern. Gall rhai hen gelfi rhagorol fod ag ôl traul arnynt ond nad yw hynny'n tynnu oddi ar eu rhagoriaeth (gan ddibynnu ar y dirywiad yn eu cyflwr). • Ystod ehangach o gelfi yn cynnig mwy o gyfforddusrwydd ac ansawdd uwch gan gynnwys o leiaf ddwy gadair gyfforddus. • Dodrefn meddal o ansawdd hanfodol uchel â nodweddion ychwanegol wedi eu cydweddu'n rhagorol. • Llenni'n dangos moethusrwydd â phelmetau a llinynnau rhwymo, digonedd o lawnder a lled. Y llenni wedi'u leinio'n llawn er mwyn cadw gwres i mewn a pheidio â gadael golau i mewn. • Ffitiadau golau o ansawdd rhagorol. Cysgodlenni yn ychwanegu at thema gyffredinol yr addurno. • Dylai ffitiadau gwres e.e. rheiddiaduron fod mewn cyflwr rhagorol a gellir eu cuddio drwy eu paentio neu osod gorchuddion rheiddiaduron.

3.7.3 Lloriau

Hygyrchedd	Osgoi carpedi peil dwfn a allai achosi i rywun faglu neu sy'n creu anawsterau i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gorchuddion lloriau'n cynnig cyfforddusrwydd digonol. Efallai y bydd rhywfaint o ôl traul i'w weld. • Y gorchuddion ddim wedi eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd.
Dwy Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffibrau sydd wedi'u gwneud gan ddyn.
Tair Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. • Lloriau pren mewn cyflwr da. • Rhai carpedi â haen waelodol.
Pedair Seren	• Gorchudd lloriau o ansawdd arbennig, ond nid o reidrwydd yn newydd ac efallai'n dangos ôl traul. Neu ansawdd mwy canolig ond mewn cyflwr gwych. Wedi eu gosod yn broffesiynol fel arfer.
Pum Seren	• Carpedi o ansawdd arbennig wedi eu gosod yn broffesiynol (e.e. canran uchel o wlân, mewn cyflwr rhagorol,) â haen waelodol sylweddol. • Estyll llawr sy'n cael eu cwyro neu orchudd haenog o ansawdd arbennig.

3.7.4 Gwelyau/Dillad Gwely

Cynaliadwyedd	Nid oes angen lapio dillad gwely ychwanegol mewn bagiau plastig; gellir eu rhoi mewn bag cotwm neu ddefnydd y gellir ei ailddefnyddio.

Hygyrchedd	Darparu dillad gwely nad ydynt yn debygol o achosi alergedd.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ansawdd derbyniol, ond efallai fod y matresi'n denau a gwaelodion y gwelyau'n isel. Pennau gwely, neu eitemau cyfatebol, yn lân ac yn ddiogel. • Gwelyau wedi eu cyflwyno'n ddigonol a'r cynfasau, y blancedi a'r gorchuddion yn lân ac mewn cyflwr da. • Ystod ddigonol o ddillad gwely, a digon o flancedi.
Dwy Seren	• Gwelyau a dillad gwely o ansawdd eithaf da. Gwelyau a matresi'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. • Efallai fod y dillad gwelyau wedi colli eu lliw, ond mae rhywfaint o ymdrech i gydweddu.
Tair Seren	• Gwely cyfforddus o ansawdd da. Matres gadarn a gwaelod cryf. • Gallai fframiau'r gwelyau fod yn hŷn, ond mewn cyflwr da. • Gwelyau wedi eu cyflwyno'n dda â chynfasau a dillad gwely o ansawdd da, newydd gael eu golchi, ac yn cydweddu. • Dillad gwely ychwanegol glân a ffres, wedi eu lapio os yn bosibl, yn cael eu darparu yn ystafelloedd y gwesteion.
Pedair Seren	• Matresi cadarn/dwfn da iawn a gwaelodion cryf. Pennau gwely'n cynnig rhywfaint o gyfforddusrwydd. • Cynfasau o ansawdd da iawn yn cydweddu â'r dillad gwely a thema addurno. Dewis o obenyddion o bosibl e.e. llenwad ffibr neu blu. • Gallai falans wella cyflwyniad rhai mathau o welyau. • Dillad gwely ychwanegol sy'n cael eu darparu yn ystafelloedd y gwesteion i fod wedi eu lapio.
Pum Seren	• Gwely o ansawdd rhagorol e.e. matres sbrings a gwaelod o ansawdd arbennig. Pen gwely glân yn cynnig cyfforddusrwydd sylweddol. • Cynfasau sy'n cydweddu, yn cael eu golchi a'u smwddio'n ofalus, a'u newid bob dau ddiwrnod o leiaf. Dewis o ddillad gwely ar gael e.e. cwiltiau neu orchuddion a blancedi o ansawdd tebyg, neu duvets â gradd tog briodol. • Y gwelyau a'r dillad gwely i gyd o ansawdd arbennig ac yn cydweddu â'r ystafell wely, yr addurniadau, y llenni a'r deunyddiau eraill. • Cyflwyniad cyffredinol o safon uchel. Defnydd priodol o falansau, gobenyddion a chlustogau.

3.7.5 Goleuo/Gwresogi/Awyru – Ansawdd y Ddarpariaeth

Cynaliadwyedd	Dylid gwneud mwy o ddefnydd o fylbiau rhad-ar-ynni. Gellir gwneud mwy o ddefnydd hefyd o olau naturiol. Gellid defnyddio arwyddion i ofyn i westeion ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Hygyrchedd	Sicrhau bod modd addasu cryfder goleuadau gan ddefnyddio switsh pylu a/neu ddarparu lampau ochr gwely/bwrdd gwisgo ychwanegol. Sicrhau bod eich gwesteion yn gallu cyrraedd ffenestri a llenni a'u bod yn hawdd i'w hagor a'u cau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell wely. • Gwres effeithiol yn yr ystafelloedd ar bob adeg resymol. • Lefelau gwresogi yn briodol i faint yr ystafell wely ac, o bosibl, ddim yn awtomatig nac yn sefydlog.
Dwy Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. Prif olau ac un golau ochr gwely o bosibl. Watedd yn uwch na'r isafswm cronnus o 160/220 wat. Efallai fod y gwresogydd yn sefyll ar ei ben ei hun, ond gallai fod yn awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Tair Seren	• Goleuadau wedi eu lleoli'n dda yn rhoi lefelau da o olau sy'n hawdd ei reoli yn y nos. • Digonedd o olau naturiol. • Lefelau effeithiol o wresogi'n darparu tymheredd cyffredinol cyson. • Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol, ac yn cael eu rheoli â thermostat.
Pedair Seren	• Lefelau da iawn o olau â mynediad rhwydd at reolyddion. Efallai y bydd gwahanol fathau o olau'n cael eu defnyddio am resymau ymarferol neu esthetig e.e. bylbiau halogen, lampau hirgoes neu oleuadau lluniau. • Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol a allai fod yn cael eu rheoli â thermostat.
Pum Seren	• Amrywiaeth o oleuadau o ansawdd arbennig, wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol ar gyfer pob diben, e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo. • Goleuadau y gellir eu rheoli, sy'n rhoi lefelau amrywiol o olau fel sy'n briodol. Gallai hyn gynnwys prif olau ystafell wely yn cael ei reoli wrth y drws a'r gwely. • Gwresogyddion yn cael eu rheoli'n unigol â thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion stôr hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn. • Ffaniau ar gyfer cyfforddusrwydd gwesteion ar gael ar gais mewn tywydd poeth.

3.7.6 Ategolion Ystafelloedd Gwely

Cynaliadwyedd	Nid oes angen i eitemau ar hambyrddau lletygarwch, fel siwgr a bisgedi, fod wedi eu lapio'n unigol – gellir defnyddio cynwysyddion aerglos ar gyfer nwyddau sych, a lle bynnag y bo modd, gellid prynu nwyddau wedi eu cynhyrchu'n lleol neu gynnyrch Masnach Deg. Bydd aseswyr yn edrych ar ansawdd y cynnwys ac arddull y cyflwyniad.
Hygyrchedd	Sicrhau bod hambyrddau lletygarwch ar uchder addas i'r holl westeion. Dylai tegelli fod yn rhai diwifr a dylai amrywiaeth o gwpanau/mygiau gael eu darparu neu fod ar gael ar gais. Sicrhau bod setiau teledu'n gallu darparu isdeitlau (Teletestun tudalen 888, digidol (DVB), isdeitlau Sky), er budd gwesteion sydd â nam ar eu clyw a gwesteion sy'n siarad iaith dramor. Sicrhau bod yr holl wybodaeth mewn print clir ar uchder addas i'r holl westeion. Ystyried darparu hysbysiadau ar y drws ar gyfer gwesteion sydd â nam ar eu clyw fel rhan o'ch trefniadau ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng.

Cyffredinol

NID gofynion yw'r rhain, ond os ydynt yn cael eu darparu, bydd eu hansawdd, eu hystod, eu cyflwyniad a'u hwylustod yn cael ei ystyried yn yr asesiad.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys: cynhwysion a chyfarpar ar gyfer gwneud diodydd poeth, teledu digidol, dociau iPod, Wi-Fi, radio, sychwr gwallt, gwybodaeth mewn ystafelloedd, ffôn, ffrwythau, melysion, poteli dŵr am ddim, blodau ffres neu blanhigion, deunydd darllen, brwshys dillad, pecynnau trwsio, bisgedi, poteli dŵr poeth, oergelloedd bach, hancesi ac ati.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Cyfyngedig iawn o ran ystod ac ansawdd.
Dwy Seren	• Ystod fechan o ansawdd eithaf da.
Tair Seren	• Ystod ac ansawdd da.
Pedair Seren	• Ystod sylweddol o ategolion o ansawdd da iawn.
Pum Seren	• Ystod ragorol o ategolion o ansawdd arbennig.

3.7.7 Gofod, Cysur a Hwylustod

Cynaliadwyedd	Darparu gwelyau sip a chyswllt fel bod modd darparu ar gyfer gwestai a phartner neu westai a gofalwr, yn enwedig mewn ystafelloedd gwely hygyrch. Darparu blociau fel bod modd addasu uchder gwelyau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Dylid gallu agor drysau a droriau i'r pen, heb orfod symud celfi eraill. • Yr ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi sydd eu hangen, ond dim llawer o ystyriaeth i gyfosodiad. • Lle rhesymol i'r gwesteion symud o gwmpas heb gael eu cyfyngu'n ddiangen gan drawstiau isel ymwthiol. Yr ystafell o bosibl yn cynnwys celfi mawr, sy'n ei gwneud yn anos i'w defnyddio. • Ynysiad rhesymol rhag sŵn a dim llawer o sŵn o bibellau dŵr, coridorau ac ati i darfu ar y gwestai.
Dwy Seren	• Bydd angen i'r ystafelloedd fod yn fwy â llawer mwy o ofod y gellir ei ddefnyddio o amgylch celfi a ffitiadau. • Ystafelloedd heb lanastr. • Cadeiriau boddhaol ar gyfer y math o lety.
Tair Seren	• Gofod digonol i alluogi gwesteion i symud o gwmpas yn rhwydd a chyfforddusrwydd da. • Holl gyfleusterau'r ystafell wely'n hawdd i'w defnyddio. • Celfi wedi eu gosod yn gyfleus ar gyfer defnydd ymarferol. • Teledu, os darperir un, i'w weld o'r man eistedd neu o'r gwely. • Mynediad da at ddwy ochr gwely dwbl. • Cadeiriau ymarferol, cyfforddus. • Digonedd o socedi trydan ar gyfer yr holl gyfarpar a ddarperir. D.S. Lle mae'n bosibl mynd at un ochr yn unig o wely dwbl 4 troedfedd 6 modfedd, y radd uchaf y gellir ei dyfarnu yw gradd **tair** seren.

Pedair Seren	• Cyfosodiad celfi wedi'i gynllunio'n dda er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle gwag. Gallai'r ystafelloedd fod yn llai, ond mae cynllunio gofalus yn golygu bod modd defnyddio lle gwag yr un fath. • Mynediad da iawn at ddwy ochr gwely dwbl. • Darperir un gadair ar gyfer pob gwestai efallai. • Socedi wrth gefn, a hawdd mynd atynt, mewn lleoliad da ar gyfer pob defnydd. • Cyn lleied ag sy'n bosibl o sŵn.
Pum Seren	• Ystafell helaeth, wedi'i chynllunio'n dda, â dodrefn mewn lleoedd addas a chyfleus i wneud i'r gwesteion deimlo'n gyfforddus iawn. Lle ar gael i gadw bagiau heb greu llanastr yn yr ystafell ac atal mynediad. • Defnydd rhwydd a chyfleus o gyfleusterau, e.e. defnyddio arwynebau heb symud hambwrdd te neu deledu (lle darperir un), mynediad at socedi trydan ac ati. • Cadeiriau esmwyth cyfforddus. • Arwynebau gwastad, clir sy'n briodol i'r farchnad e.e. efallai y bydd angen i sefydliadau sy'n denu pobl fusnes ddarparu lle i weithio. • Digonedd o le i fynd at ddwy ochr gwely dwbl. • Dim sŵn yn tarfu.

3.8 Ystafelloedd Ymolchi/Ystafelloedd En-Suite/Toiledau – Ansawdd a Chyflwr

3.8.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Addurniadau a theils ymarferol. Dim llawer o gydweddu.
Dwy Seren	• Y gwaith addurno'n hen efallai, ond dim ôl difrod, crafiadau na rhwygiadau.
Tair Seren	• Y papur wal a'r paent o ansawdd da ac â gorffeniad da. • Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda.
Pedair Seren	• Yr addurno o safon dda iawn. Yr ystafell wedi ei hailaddurno yn ddiweddar efallai, ond nid o'r ansawdd gorau. Neu ansawdd rhagorol ond yn dangos rhywfaint o'i oed. • Rhywfaint o ymdrech i guddio pibelli a gwifrau sydd wedi eu gosod ar yr wyneb.
Pum Seren	• Dyluniad mewnol rhagorol, â llawer o sylw i fanylder a phopeth mewn cyflwr gwych. • Gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno ag addurniadau a theils o ansawdd arbennig. Y gwaith selio a growtio'n daclus iawn. • Defnydd deniadol o luniau, printiau a cherfweddau addurniadol eraill, lle bo'n briodol.

3.8.2 Gosodiadau a Ffitiadau

Cynaliadwyedd	Defnyddio gosodiadau y gellir eu rheoli â thermostat ar gyfer dŵr poeth. Gellid defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel 'Hippos' mewn seston toiled. Nid oes angen i sebon a chynnyrch eraill sy'n cael eu darparu fod wedi eu lapio'n unigol – gellir cyflwyno'r rhain mewn teclynnau deniadol addas. Bydd aseswyr yn asesu ansawdd y cynnyrch sy'n cael eu cynnig a'r dull cyflwyno. Nid oes angen i'r cwpan/gwydr yfed wrth gefn fod yn un plastig, na chael ei lapio. Er bod darparu cyfleusterau cawod yn gallu defnyddio llai o ddŵr, cofiwch fod cawodydd pŵer yn gallu defnyddio mwy o ddŵr na bath. Felly, dylid ystyried defnyddio pennau cawod sydd â llai o lif neu gawodydd sy'n dibynnu ar ddisgyrchiant lle bo modd.

Hygyrchedd	Dylai'r cyflenwad dŵr poeth fod â falf gymysgu ym mhob ffitiad, wedi'i rheoli ar uchafswm o 41C rhag llosgi. Darparu detholiad o gyfarpar fel seddi bath, cyfarpar i godi uchder sedd toiled a chadeiriau cawod. Darparu rheilen gynnal ger atodiadau'r gawod.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ffitiadau o ansawdd derbyniol. • Gorchudd ffenestr priodol, wedi'i osod yn gywir. • Darparu arwyneb gwastad i eiddo gwesteion. • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd digonol. • Darpariaeth rheiliau tyweli ddigonol, ond cynnil.
Dwy Seren	• Ffitiadau o ansawdd eithaf da, ond efallai y byddant wedi dyddio neu ag ôl traul arnynt. • Efallai na fydd y cyfleusterau glanweithdra'n cydweddu a gallent gynnwys basnau ymolchi, gwaelod cawod ac ati o blastig.
Tair Seren	• Offer solet, o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, sy'n cydweddu. Cyfleusterau glanweithdra'n cydweddu. • Dim bath neu gawod fach sy'n anodd mynd iddi. • Ffitiadau golau o ansawdd da. • Gorchuddion ffenestri wedi eu gosod yn dda, â digon o led ac uchder i gau dros y ffenestr gyfan. • Digon o silffoedd ar gyfer eiddo gwesteion.

Pedair Seren	• Bath a basn ymolchi o faint da. Sgrin o amgylch y gawod neu len cawod o ansawdd arbennig. • Bath a gwaelod cawod o ansawdd da iawn – ceramig/enamel mae'n debyg neu ddeunydd cyfansawdd. • Ffitiadau o ansawdd cyffredinol arbennig ym mhobman a dim ond ychydig o ôl traul. Yr holl gyfleusterau glanweithdra mewn cyflwr da, dim craciau o unrhyw faint, na gorffeniadau pŵl. • Tapiau a chawodydd o ansawdd arbennig â llif cryf a braf o ddŵr, sy'n hawdd ei reoli.
Pum Seren	• Ffitiadau solet, o ansawdd arbennig, wedi'u gwneud yn dda, ac mewn cyflwr rhagorol, i gyd yn cydweddu. • Bath cryf, haearn bwrw neu ddur ac enamel. Ciwbiclau cawod neu sgriniau o ansawdd arbennig. • Cawodydd pŵer neu ffitiadau o ansawdd arbennig sy'n ymatebol, y gellir eu rheoli â thermostat ac sy'n hawdd i'w defnyddio. • Digonedd o ddŵr poeth bob amser. • Digon o le ar reiliau tyweli. • Rheilen dyweli wedi'i gwresogi, neu reilen dyweli wedi'i gosod uwchben rheiddiadur.

3.8.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gorchudd llawr o gyfforddusrwydd digonol. Efallai y bydd rhywfaint o ôl traul i'w weld. • Efallai na fydd wedi'i osod yn broffesiynol. *Mae'r ymarfer gorau'n awgrymu bod llawr y gellir ei olchi'n fwy hylan na charped.*
Dwy Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffibrau sydd wedi'u gwneud gan ddyn. • Ni ddylai lloriau finyl na theils fod â llawer o ddifrod.
Tair Seren	• Gorchudd lloriau o ansawdd da, wedi'i osod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. • Lloriau pren mewn cyflwr da. • Rhai carpedi â haenau gwaelodol.
Pedair Seren	• Gorchudd lloriau o ansawdd arbennig, ond nid o reidrwydd yn newydd ac efallai'n dangos ôl traul. Neu ansawdd mwy canolig ond mewn cyflwr gwych. • Wedi eu gosod yn broffesiynol fel arfer.
Pum Seren	• Carpedi, teils, finyl neu ddeunydd haenog o ansawdd arbennig, wedi'i osod yn broffesiynol. • Estyll llawr wedi eu cwyro neu ddeunydd haenog o ansawdd arbennig â rygiau. • Lle bo'r llawr wedi ei deilsio, dylai'r gwaith growtio a selio fod mewn cyflwr rhagorol.

3.8.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Cynaliadwyedd	Mae defnyddio rheiddiaduron y gellir eu rheoli â thermostat yn helpu i reoli eich defnydd o ynni.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Lefelau digonol o olau ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell ymolchi. • Gwres digonol ar gyfer maint yr ystafell ar bob adeg resymol. Nid oes angen iddo fod yn awtomatig, ond dylai fod yn sefydlog er diogelwch. • Awyriad effeithiol. Ffenestr yn unig efallai.
Dwy Seren	• Lefelau eithaf da o olau. Prif olau yn unig efallai. • Gwresogydd yn cynnig lefel dda o wres a all fod yn awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Tair Seren	• Goleuadau wedi eu lleoli'n dda'n rhoi lefelau da o olau yn enwedig wrth y drych. Digonedd o olau naturiol. • Lefelau gwresogi cyfforddus, sy'n briodol i faint yr ystafell ac yn darparu tymheredd cyffredinol cyson.
Pedair Seren	• Lefelau da iawn o olau yn enwedig uwchben y drych neu yn ei ymyl. • Gwahanol fathau o olau'n cael eu defnyddio efallai am resymau ymarferol neu esthetig, e.e. bylbiau halogen. • Gwresogyddion awtomatig, y gellir eu rheoli â thermostat, wedi eu gosod yn briodol.
Pum Seren	• Goleuadau o ansawdd da, wedi eu lleoli'n dda, yn rhoi lefelau da o olau i ddibenion amrywiol, e.e. eillio, coluro ac ati. • Gwres ymatebol, awtomatig, y gellir ei reoli â thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion stôr hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn. Ffynhonnell y gwres efallai'n rheilen dyweli wedi'i gwresogi neu'n wres o dan y llawr. • Os oes ffenestr, disgwylir ffan echdynnu yn ogystal â'r ffenestr.

3.8.5 Tyweli a Phethau Ymolchi – Ansawdd, Ystod a Chyflwyniad

Cynaliadwyedd	Gellid defnyddio arwyddion cytundeb tyweli.

Hygyrchedd	Darparu tyweli o liw gwrthgyferbyniol i'r waliau a'r llawr er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ansawdd boddhaol, â thyweli o ystod a maint sylfaenol. • Darparu sebon yn unig. Heb ei lapio efallai neu mewn peiriant sebon o ansawdd derbyniol. • Dim tystiolaeth o eiddo personol y perchnogion mewn ystafelloedd ymolchi cyhoeddus/ystafelloedd ymolchi sy'n cael eu rhannu.
Dwy Seren	• Tyweli ychydig yn fwy trwchus o bosibl ac yn cydweddu. • Efallai fod y sebon o ansawdd cyffredin, ond ei fod wedi ei lapio o bosibl. Ategolion ychwanegol – os oes rhai – o bosibl o ansawdd a chyflwyniad sylfaenol.

Tair Seren	• Gwell ystod o dyweli amsugnol o ansawdd da. • Tyweli'n cael eu newid o leiaf bob tri diwrnod ac eithrio lle bo gwesteion, fel rhan o bolisi amgylcheddol, yn derbyn gwahoddiad i newid tyweli'n llai aml. • Papur toiled o ansawdd da ac ystod o bethau ymolchi o safon, gan gynnwys sebon wedi ei lapio, siampŵ ac ati. Mae poteli mawr o ddeunydd brand yn dderbyniol ond dylid sicrhau bod rhywbeth ynddynt o hyd.
Pedair Seren	• Tyweli meddal, braf, o ansawdd arbennig, sy'n arogli'n lân ac yn ffres. Gellir cynnwys gwlanen ymolchi. • Pethau ymolchi o ansawdd gwell wedi eu pecynnu a'u cyflwyno'n well – i gyd yn perthyn i'w gilydd efallai.
Pum Seren	• Mwy o amrywiaeth o dyweli o safon, e.e. tyweli mawr, gynau a gwlanenni. • Tyweli'n cael eu newid bob deuddydd, ac eithrio lle bo gwesteion, fel rhan o bolisi amgylcheddol, yn derbyn gwahoddiad i newid tyweli'n llai aml. • Papur toiled moethus ac ystod dda iawn o bethau ymolchi o ansawdd rhagorol wedi eu cyflwyno'n dda, e.e. sebon o ansawdd arbennig, siampŵ, gel cawod, cyflyrydd, hancesi, peli gwlân cotwm, gwlân cotwm ar goesyn ac ati.

3.8.6 Gofod, Cysur a Hwylustod

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gofod digonol â chyfosodiad boddhaol a digon o le i symud o gwmpas. • Gwasgedd dŵr digonol a draeniad boddhaol. • Arwyneb gwastad ar gael i eiddo gwesteion.
Dwy Seren	• Lefelau cyfforddusrwydd eithaf da. Efallai nad oes llawer o le, ond dylai gwesteion allu defnyddio cyfleusterau yn gyfforddus a chael mynediad cyfleus at fath, cawod a thŷ bach.
Tair Seren	• Gofod digonol i ganiatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau.
Pedair Seren	• Cyfosodiad cyfleusterau glanweithdra a ffitiadau wedi cael ei gynllunio'n dda er mwyn gwneud yr ystafell yn fwy hwylus ac yn hawdd i'w defnyddio. • Darpariaeth dda iawn o silffoedd ar gyfer pethau ymolchi gwesteion ac ati.
Pum Seren	• Digonedd o ofod i ganiatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau. • Digon o le ar gyfer pethau ymolchi ac offer eillio ac i hongian dillad. Cyfosodiad cyfleus. • Prin ddim sŵn o bibellau dŵr.

3.9 Yr Holl Fannau Cyhoeddus gan gynnwys Lolfeydd, Barrau, Cynteddau, Grisiau, Pen Grisiau a Thoiledau Cyhoeddus – Ansawdd a Chyflwr

3.9.1 Addurno

Cynaliadwyedd	Addurniadau – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau a/neu ffotograffau o ddelweddau sy'n cyfleu golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth – mae'r cyfan yn ychwanegu at naws arbennig gwahanol leoedd.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ran ansawdd a nifer. • Addurno ymarferol a dim llawer o gydweddu. Dim llawer o luniau a chrogluniau.
Dwy Seren	• Efallai fod yr addurniadau'n hen, ond heb ôl difrod, crafiadau na rhwygiadau. • Mwy o ymdrech i gydweddu.
Tair Seren	• Addurniadau mewnol yn cydweddu. • Papur wal a phaent o ansawdd da, ac â gorffeniad da. • Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda. • Defnyddio lluniau ac ati lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau moel.
Pedair Seren	• Safon yr addurno'n dda iawn â defnydd o luniau a phrintiau o ansawdd arbennig lle bo'n berthnasol. • Rhywfaint o ymdrech i guddio pibelli a gwifrau sydd wedi'u gosod ar yr wyneb.
Pum Seren	• Dylunio mewnol rhagorol, â llawer iawn o sylw i fanylder. Cydweddu patrymau, lliwiau a gweadau'n feddylgar. • Gorchuddion waliau o ansawdd arbennig â gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. • Defnydd deniadol o luniau, printiau a cherfweddau addurniadol eraill.

3.9.2 Celfi, Ffitiadau a Dodrefn Meddal

Hygyrchedd	Darparu cadeiriau amrywiol: isel, uchel, caled, esmwyth, â breichiau a heb freichiau.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Celfi, dodrefn meddal a ffitiadau yn gyfyngedig o ran ansawdd, ystod a chydweddiad.
Dwy Seren	• Mwy o gelfi'n cael eu darparu, a allai fod wedi dyddio, ond a fydd yn gryf ac yn addas i'r diben. Neu gelfi a oedd yn rhagorol ar un adeg o bosibl, ond sydd bellach yn dangos eu hoed a rhywfaint o ôl traul. • Llenni i fod o ansawdd gwell, yn lân a heb staen arnynt.
Tair Seren	• Celfi ymarferol o ansawdd da mewn cyflwr cryf. • Ystod o soffas a/neu gadeiriau breichiau o ansawdd da mewn lolfeydd. • Ffitiadau golau o ansawdd da â chysgodlenni priodol. • Llenni sylweddol wedi eu leinio â defnydd da o gydweddu. • Rhai cyffyrddiadau personol e.e. llyfrau, cylchgronau, gwybodaeth am hanes lleol ac ati ar gael mewn lolfeydd.
Pedair Seren	• Celfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd arbennig – nid yn newydd o reidrwydd, ond yn dal yn cynnig cyfforddusrwydd sylweddol. Neu gelfi o ansawdd da mewn cyflwr newydd, rhagorol. • Ffitiadau golau yn amrywiol ac o ansawdd a chyflwr da iawn. • Llenni i fod yn llawn a gallent fod ag addurniadau ychwanegol e.e. llinynnau rhwymo.

Pum Seren	• Lolfa gyfforddus, ar wahân i'r ystafell fwyta fel arfer. • Y celfi i gyd o ansawdd a chyflwr rhagorol. Gallent fod yn gelfi modern, yn atgynhyrchiadau neu'n hen ddodrefn. • Ystod ehangach o gelfi yn cynnig mwy o ddewis o gadeiriau. • Dodrefn meddal o ansawdd hanfodol uchel wedi eu cydweddu'n rhagorol â nodweddion ychwanegol fel mân glustogau. • Llenni'n dynodi moethusrwydd sylweddol â defnydd da o belmetau a llinynnau rhwymo, digonedd o lawnder a lled. Llenni i fod wedi eu leinio'n llawn er mwyn cadw gwres i mewn a pheidio â gadael golau i mewn. • Ffitiadau golau amrywiol o ansawdd rhagorol. Cysgodlenni yn ychwanegu at thema gyffredinol yr addurno. • Dylai ffitiadau gwres fel rheiddiaduron fod mewn cyflwr rhagorol a gellid eu cuddio drwy eu paentio neu osod gorchuddion rheiddiaduron.

3.9.3 Lloriau

Hygyrchedd	Darparu stribed o liw gwrthgyferbyniol i'r llawr ar ymyl pob gris neu ar bob newid mewn lefel. Darparu o leiaf un canllaw di-dor ar risiau a lle bo newid mewn lefelau'n digwydd. Darparu arwyddion clir. Gweler y Canllawiau Dylunio Arwyddion yn www.signdesignsociety.co.uk

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd digonol. Efallai y bydd rhywfaint o ôl traul i'w weld. • Efallai na fydd y gorchuddion wedi eu gosod yn broffesiynol.
Dwy Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffibrau sydd wedi'u gwneud gan ddyn.
Tair Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. • Lloriau pren, cerrig neu deils mewn cyflwr da. • Rhai carpedi â haen waelodol.
Pedair Seren	• Gorchudd lloriau o ansawdd arbennig, ond nid o reidrwydd yn newydd ac efallai'n dangos ôl traul. Neu ansawdd mwy canolig ond mewn cyflwr gwych. Wedi eu gosod yn broffesiynol fel arfer.
Pum Seren	• Carpedi o ansawdd arbennig wedi eu gosod yn broffesiynol e.e. canran uchel o wlân, mewn cyflwr rhagorol, â haen waelodol sylweddol. • Estyll llawr sy'n cael eu cwyro neu orchudd haenog o ansawdd arbennig â rygiau neu fatiau o ansawdd arbennig lle bo'n briodol.

3.9.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Cynaliadwyedd	Goleuadau – dylid gwneud mwy o ddefnydd o fylbiau golau rhad-ar-ynni ym mhob rhan o'r gwesty. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o olau naturiol hefyd. Gwres – bydd gwell inswleiddio a mwy o ddefnydd o wresogyddion y gellir eu rheoli â thermostat a gwresogi ardaloedd penodol yn arbed ynni.

Hygyrchedd	Darparu man wedi'i oleuo'n dda, heb ormod o bethau o gwmpas, fel bod modd mynd at y dderbynfa'n rhwydd. Dylid darparu cadeiriau i westeion hefyd. Bydd dolen sain neu glipfwrdd a beiro o gymorth er mwyn cyfathrebu â gwesteion sydd â nam ar eu clyw.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell. • Gwres effeithiol yn yr ystafelloedd ar bob adeg resymol. • Lefelau gwresogi yn briodol i faint yr ystafell. O bosibl, ddim yn awtomatig nac yn sefydlog.
Dwy Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. • Efallai fod y gwresogydd yn sefyll ar ei ben ei hun, ond gallai fod yn awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Tair Seren	• Goleuadau wedi eu lleoli'n dda yn rhoi lefelau da o olau. • Lefelau effeithiol o wresogi'n darparu tymheredd cyffredinol cyson. • Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol, sy'n cael eu rheoli â thermostat.
Pedair Seren	• Lefelau da iawn o olau lle defnyddir gwahanol fathau o olau am resymau ymarferol neu esthetig neu i greu awyrgylch e.e. bylbiau halogen, lampau hirgoes neu oleuadau lluniau. • Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol a allai fod yn cael eu rheoli â thermostat.
Pum Seren	• Mathau amrywiol o oleuadau yn rhoi lefelau da o olau ar gyfer pob diben ymarferol, e.e. darllen bwydlen a rhestr win mewn barrau ac ati. • Ymdrech gadarnhaol i sicrhau bod y gwresogyddion yn diwallu anghenion y gwesteion. Yn debygol o fod yn wresogyddion awtomatig, sy'n cael eu rheoli â thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion stôr hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn. Ffynhonnell wrth gefn ar gyfer tywydd oer iawn, a allai gynnwys tân agored lle bo'n briodol, neu danau effaith glo/nwy/coed.

3.9.5 Gofod, Cysur a Hwylustod

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Yr ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi sydd eu hangen. Dim llawer o ystyriaeth wedi'i rhoi i gyfosodiad ond digon o le i westeion fod yn gyfforddus. • Yr ystafell o bosibl yn cynnwys celfi mawr, sy'n ei gwneud yn anos i'w defnyddio. • Amgylchedd derbyniol i westeion heb ormod o sŵn, cerddoriaeth, arogleuon, mwg, anifeiliaid anwes ac ati i aflonyddu arnynt.
Dwy Seren	• Bydd angen i'r ystafelloedd fod yn fwy â llawer mwy o ofod y gellir ei ddefnyddio. • Ystafelloedd heb lanastr. • Dim llawer o gyfforddusrwydd i'r gwesteion.
Tair Seren	• Dylai lolfa sy'n cael ei rhannu gyda'r perchnogion fod yn daclus ac yn dwt er mwyn i'r gwesteion allu ei defnyddio'n gyfforddus. • Gofod digonol i ganiatáu cyfforddusrwydd sylweddol i westeion.
Pedair Seren	• Mannau cyhoeddus, gan gynnwys y lolfa os darperir un, o bosibl wedi eu dynodi fel mannau i'w defnyddio gan westeion. • Cyfosodiad celfi wedi'i gynllunio'n dda er mwyn gwneud y defnydd gorau o le gwag. Yr ystafelloedd yn llai efallai ond mae cynllunio gofalus yn golygu bod modd defnyddio lle gwag yr un fath. • Cyn lleied ag sy'n bosibl o sŵn ymwthiol.
Pum Seren	• Ystafell helaeth, wedi'i chynllunio'n dda, â chelfi mewn lleoedd addas, cyfleus yn caniatáu cyfforddusrwydd sylweddol. Y cyfleusterau'n gyfleus ac yn hawdd i'w defnyddio. • Cadeiriau esmwyth cyfforddus. Digonedd o le. • Awyrgylch ffres ac ysgafn.

3.10 Ystafell Fwyta neu Dŷ Bwyta – Ansawdd a Chyflwr

3.10.1 Addurno

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Addurno ymarferol a dim llawer o gydweddu. • Dim llawer o luniau a chrogluniau.
Dwy Seren	• Efallai fod yr addurniadau'n hen, ond heb ôl difrod, crafiadau na rhwygiadau. Dim ôl bwyd wedi tasgu.
Tair Seren	• Addurniadau mewnol yn cydweddu. • Papur wal a phaent o ansawdd da ac â gorffeniad da. • Gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda. • Defnyddio lluniau ac ati lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau moel.
Pedair Seren	• Safon yr addurno'n dda iawn â defnydd o luniau a phrintiau o ansawdd arbennig lle bo'n berthnasol. • Rhywfaint o ymdrech i guddio pibelli a gwifrau sydd wedi'u gosod ar yr wyneb.
Pum Seren	• Dylunio mewnol rhagorol, â llawer iawn o sylw i fanylder. Cydweddu patrymau, lliwiau a gweadau'n feddylgar. • Gorchuddion waliau o ansawdd arbennig â gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. • Defnydd deniadol o luniau, printiau a cherfweddau addurniadol eraill.

3.10.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Celfi a dodrefn meddal digonol o ran ansawdd ac ystod. Dim llawer o gydweddu. Celfi bwyta ddim yn cydweddu efallai. • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd a diogelwch derbyniol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell. • Pob gorchudd ffenestr wedi'i osod yn gywir, â digon o led ac uchder i gau'n iawn.
Dwy Seren	• Celfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd eithaf da, yn gryf ac yn addas i'r diben. Neu, efallai fod y celfi wedi bod o ansawdd rhagorol ond eu bod yn dangos eu hoed a rhywfaint o ôl traul erbyn hyn. • Llenni o ansawdd gwell, sy'n lân ac yn hawdd i'w cau. • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr eithaf da.
Tair Seren	• Celfi o ansawdd a chyflwr da. Maint a nifer y dodrefn meddal yn gymesur â'r gofod sydd ar gael. • Defnydd da o gydweddu. • Ffitiadau golau a chysgodlenni o ansawdd da, heb ôl deifio. • Llenni sylweddol, wedi eu leinio.
Pedair Seren	• Celfi, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd arbennig ac mewn cyflwr da iawn. Y celfi ddim yn newydd o reidrwydd ond yn dal i gynnig cyfforddusrwydd sylweddol. • Llenni llawn, o bosibl ag addurniadau ychwanegol e.e. llinynnau rhwymo.
Pum Seren	• Yr holl gelfi o ansawdd a chyflwr rhagorol. Celfi modern, atgynhyrchiadau neu hen gelfi. Gall rhai hen gelfi rhagorol fod ag ôl traul arnynt ond nad yw hynny'n tynnu oddi ar eu rhagoriaeth. • Dodrefn meddal o ansawdd hanfodol arbennig wedi eu cydweddu'n rhagorol. • Llenni wedi eu leinio â digonedd o lawnder a lled. Edrych yn foethus. Efallai â phelmetau a llinynnau rhwymo. Ffitiadau golau amrywiol o ansawdd rhagorol. Cysgodlenni yn ychwanegu at thema gyffredinol yr addurno. • Ffitiadau gwres mewn cyflwr rhagorol. Rheiddiaduron o bosibl yn cael eu cuddio gan orchuddion rheiddiaduron neu baent.

3.10.3 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gorchuddion lloriau'n cynnig cyfforddusrwydd digonol. Efallai y bydd rhywfaint o ôl traul i'w weld. • Efallai na fydd y gorchuddion wedi eu gosod yn broffesiynol.
Dwy Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffibrau sydd wedi'u gwneud gan ddyn.
Tair Seren	• Gorchuddion lloriau o ansawdd da, wedi eu gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. • Lloriau pren, cerrig a theils mewn cyflwr da. • Rhai carpedi â haen waelodol.
Pedair Seren	• Gorchudd lloriau o ansawdd arbennig, ond nid o reidrwydd yn newydd ac efallai'n dangos ôl traul. Neu ansawdd mwy canolig ond mewn cyflwr gwych. Wedi eu gosod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren	• Carpedi o ansawdd arbennig wedi eu gosod yn broffesiynol e.e. canran uchel o wlân, mewn cyflwr rhagorol, â haen waelodol sylweddol. • Estyll llawr sy'n cael eu cwyro neu orchudd haenog ac ati o ansawdd arbennig â rygiau.

3.10.4 Goleuo a Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell. • Gwres effeithiol yn yr ystafelloedd ar bob adeg resymol. • Lefelau gwresogi yn briodol i faint yr ystafell. O bosibl, ddim yn awtomatig nac yn sefydlog.
Dwy Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. • Efallai fod y gwresogydd yn sefyll ar ei ben ei hun, ond gallai fod yn awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Tair Seren	• Goleuadau wedi eu lleoli'n dda yn rhoi lefelau da o olau. • Digonedd o olau naturiol. • Lefelau effeithiol o wresogi'n darparu tymheredd cyffredinol cyson. • Gwresogyddion wedi eu gosod yn briodol, sy'n cael eu rheoli â thermostat.
Pedair Seren	• Lefelau da iawn o olau â mynediad rhwydd at reolyddion. Efallai y bydd gwahanol fathau o olau'n cael eu defnyddio am resymau ymarferol neu esthetig neu i greu awyrgylch e.e. bylbiau halogen, lampau hirgoes neu oleuadau lluniau. • Gwresogyddion awtomatig wedi eu gosod yn briodol a allai fod yn cael eu rheoli â thermostat.
Pum Seren	• Mathau amrywiol o oleuadau o safon, wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol ar gyfer pob diben, e.e. darllen bwydlen ac ati. • Gwresogyddion y gellir eu rheoli'n unigol â thermostat. Efallai na fydd rhai gwresogyddion stôr hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn.

3.10.5 Gosodiad y Bwrdd – Ansawdd a Chyflwr

Hygyrchedd	Sicrhau bod byrddau'n gadarn ac yn gallu dal pwysau pobl wrth iddynt godi o'u cadeiriau. Sicrhau bod cyferbyniad da rhwng lliw'r llestri â'r lliain bwrdd neu arwyneb y bwrdd er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg. Cynnig dewis o leoedd eistedd i westeion. Darparu detholiad o gadeiriau – rhai gyda breichiau a rhai heb freichiau. Darparu bwydlen print bras (maint 14pt o leiaf) mewn ffont glir tebyg i Arial.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Gosodiad byrddau o safon dderbyniol e.e. ysgafn, dur gwrthstaen a napcynau papur un haen. • Bwydlenni, lle maent yn cael eu darparu, wedi eu hysgrifennu â llaw efallai ar gerdyn, ond yn lân ac yn rhoi gwybodaeth sylfaenol.

Dwy Seren	• Llestri a chyllyll a ffyrc yn cydweddu'n gyffredinol, a'r napcyn o well ansawdd. Eitemau brecwast sylfaenol e.e. llaeth a siwgr ar gael ar y bwrdd/byrddau, a digon ohonynt ar gyfer y nifer sy'n eistedd. • Cynwysyddion pupur a halen llawn ar y byrddau ar gyfer pob pryd bwyd.
Tair Seren	• Byrddau wedi eu gosod yn daclus â llestri a chyllyll a ffyrc sy'n cydweddu. • Napcynau papur o ansawdd da. • Bwydlenni, lle maent yn cael eu darparu, yn lân ac wedi eu cyflwyno'n dda.
Pedair Seren	• Llestri a chyllyll a ffyrc o ansawdd da iawn. Napcynnau defnydd neu bapur o ansawdd arbennig a matiau bwrdd a/neu liain bwrdd. • Blodau neu addurn priodol arall ar fyrddau.
Pum Seren	• Gosodiad y byrddau o'r safon uchaf, ategolion a gwydrau o safon. • Llieiniau a napcynau o ansawdd arbennig neu fyrddau pren wedi eu cyflwyno'n dda â matiau. • Ychwanegiadau bwrdd o ansawdd arbennig, e.e. canhwyllau neu flodau ffres fel y bo'n briodol. • Bwydlenni ac ati wedi eu cyflwyno'n ddeniadol, gan ddefnyddio cyfosodiad clir, llawn gwybodaeth, a disgrifiadau defnyddiol.

3.10.6 Gofod, Cysur a Hwylustod

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Yr ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi sydd eu hangen, ond dim llawer o ystyriaeth i gyfosodiad. • Dim sŵn ymwthiol. • Y byrddau o faint digonol â gofod derbyniol o'u hamgylch. • Byrddau a chadeiriau wedi eu lleoli'n gyfleus.
Dwy Seren	• Bydd angen i'r ystafelloedd fod yn fwy, â llawer mwy o ofod y gellir ei ddefnyddio o amgylch byrddau a chelfi eraill. Yr ystafell yn llai efallai ond mae cynllunio gofalus yn golygu bod modd defnyddio lle gwag yr un fath. • Ystafelloedd heb lanastr.
Tair Seren	• Cyfosodiad da a digon o le i symud o gwmpas yn caniatáu i staff a chwsmeriaid fynd heibio heb achosi anhwylustod. • Byrddau a chadeiriau o uchder priodol. Cadeiriau cyfforddus, ymarferol.
Pedair Seren	• Cyfosodiad celfi wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn gwneud y defnydd gorau o le gwag.
Pum Seren	• Ystafell helaeth, wedi'i chynllunio'n dda, â chelfi mewn lleoedd addas a chyfleus. • Cyfforddusrwydd sylweddol, digon o le gwag rhwng cadeiriau, a byrddau helaeth. • Y modd y mae'r byrddau a'r cadeiriau wedi eu gosod yn dangos bod ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i gyfforddusrwydd gwesteion.

3.11 Ansawdd y Bwyd

3.11.1 Cinio gyda'r Nos (os yw'n cael ei ddarparu) – Ansawdd, Tymheredd a Pha Mor Ffres yw'r Bwyd
Cyflwyniad Cinio gyda'r Nos (os yw'n cael ei ddarparu) – Ymddangosiad Bwyd

Cynaliadwyedd	Gall bwydlenni sy'n tynnu sylw at fwydydd lleol arbennig helpu i'ch gwneud yn wahanol i bobl eraill sy'n cystadlu yn eich erbyn. Felly tynnwch sylw at y cysylltiad â chynhyrchwyr lleol lle bynnag y bo modd, a nodwch yn fyr o ble mae'r cynhwysion yn dod, pwy yw'r cynhyrchwr a pham rydych wedi ei ddewis. Prynu cynnyrch bwyd a diod yn lleol os oes modd. Datblygu perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol. Dylai staff sy'n gweini bwyd a diod gael gwybodaeth lawn am darddiad, nodweddion ac arwyddocâd cynnyrch bwyd a diod lleol.

Hygyrchedd	Darparu ar gyfer gofynion gwahanol ddeietau e.e. dim cynnyrch llaeth, dim gwenith, dim lactos, dim cnau. Darparu bwydlen print bras (maint 14pt o leiaf) mewn ffont glir tebyg i Arial.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Bwydlen benodol efallai ond â dewis arall ar gael ar gais. • Dim llawer o arnais neu addurniadau. Bwffe a charferi'n cael ei gyflwyno'n syml iawn.
Dwy Seren	• Bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel y bo'n briodol. • Dim llawer o ddewis ar gael. • Prydau'n cael eu paratoi â lefel eithaf da o ofal.
Tair Seren	• Bwyd wedi ei goginio'n ffres o gynhwysion o safon yn cael ei gyflwyno'n dda. Tystiolaeth bod rhywfaint o gynhwysion ffres yn cael eu defnyddio. • Rhoddir sylw penodol i ansawdd bwyd yn hytrach na dewis helaeth.
Pedair Seren	• Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi eu coginio â lefel uchel o ofal a sylw i fanylder.
Pum Seren	• Coginio rhagorol â phwyslais ar gynhwysion ffres, lleol, tymhorol a choginio medrus. • Pwyslais cryf ar fwyd sy'n gyson o safon uchel. • Gofal a sylw amlwg i fanylder ac ymddangosiad â garnais ac addurniadau deniadol fel y bo'n briodol, yn gwneud i'r bwyd edrych yn dda.

3.11.2 Brecwast – Ansawdd, Tymheredd a Pha Mor Ffres yw'r Bwyd Cyflwyniad Brecwast – Ystod o Seigiau ac Ymddangosiad Bwyd

Cynaliadwyedd	Gall bwydlenni sy'n tynnu sylw at fwydydd lleol arbennig helpu i'ch gwneud yn wahanol i bobl eraill sy'n cystadlu yn eich erbyn. Felly tynnwch sylw at y cysylltiad â chynhyrchwyr lleol lle bynnag y bo modd, a nodwch yn fyr o ble mae'r cynhwysion yn dod, pwy yw'r cynhyrchwr a pham rydych wedi ei ddewis.

Hygyrchedd	Darparu ar gyfer gofynion gwahanol ddeietau e.e. dim cynnyrch llaeth, dim gwenith, dim lactos, dim cnau. Darparu bwydlen print bras (maint 14pt o leiaf) mewn ffont glir tebyg i Arial.

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Bwydlen benodol efallai, e.e. yn cynnwys diod o sudd ffrwythau, grawnfwyd, bacwn ac ŵy, tost, coffi a the. • Pob pryd poeth wedi ei goginio a'i gyflwyno'n briodol. • Gofalu bod sudd ffrwythau'n oer, y tost ddim yn feddal a'r te a'r coffi'n cael eu gwneud yn ffres.
Dwy Seren	• Bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel y bo'n briodol. • Dim llawer o ddewis ar gael. • Bwyd yn cael ei baratoi â lefel eithaf da o ofal.
Tair Seren	• Dewis o eitemau o ansawdd da ar gael, e.e. ffrwythau, dewis o rawnfwydydd, selsig, tomato, tost brown neu wyn a gwahanol jamiau ac ati. • Bwffe deniadol (os darperir un). • Eitemau wedi eu coginio'n ffres yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir. Wyau'n cael eu coginio fel y gofynnir amdanynt. • Sylw penodol i ansawdd bwyd yn hytrach na dewis helaeth.
Pedair Seren	• Mwy o ddewis o eitemau ar gael, o bosibl yn cynnwys 'dewis arbennig y tŷ' e.e. pysgod mwg. • Defnydd amlwg o gynhwysion ffres yn cael eu coginio a'u cyflwyno â llawer o ofal a sylw i fanylder.
Pum Seren	• Cynhwysion ffres, o ansawdd arbennig, a dewis eang o eitemau, e.e. sudd ffrwythau ffres, coffi wedi'i falu'n ffres, dewis o de, caws a chigoedd oer, eitemau wedi'u pobi o ansawdd arbennig a jam cartref. • Bwydydd sy'n nodweddiadol o'r ardal a/neu eitemau cartref. • Defnydd da o gynnyrch ffres lleol/wedi eu tyfu gartref lle bônt ar gael.

4.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ymrwymo i'r Cod Ymddygiad canlynol a chadw ato:

- Cynnal safonau yn ymwneud â gofal gwesteion, glendid, a gwasanaethau sy'n addas i'r busnes.
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfrwng argraffedig neu electronig arall.

- Esbonio i ymwelwyr yr hyn sy'n gynwysedig ym mhris y llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill. Dylid hysbysu ymwelwyr am daliadau ar gyfer gwasanaethau/cyfleusterau ychwanegol.
- Datgan eich polisi canslo yn glir i westeion adeg archebu, h.y. ar y ffôn, ffacs, e-bost yn ogystal â thrwy'r wybodaeth argraffedig sy'n cael ei rhoi iddynt.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd adeg archebu ar gyfer llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â'u codi.
- Hysbysu ymwelwyr adeg archebu ac ar ôl hynny am unrhyw newid, os yw'r llety'n cael ei gynnig mewn rhandy ar wahân neu mewn adeilad tebyg arall, a nodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw newidiadau o ran moethusrwydd a/neu amwynderau o gymharu â llety yn y prif eiddo.
- Hysbysu pob ymwelydd am fanylion y taliadau sy'n ddyledus a rhoi derbynneb iddynt ar gais, os oes angen.
- Ymdrin yn ddi-oed ac yn gwrtais â'r holl ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod gweithdrefnau i ymdrin â chwynion ar waith a bod unrhyw gwynion a dderbynnir yn cael eu hystyried yn ddi-oed ac yn gwrtais a bod yr ymwelydd yn cael ei hysbysu o'r canlyniad.
- Rhoi ystyriaeth i ofynion ymwelwyr anabl ac ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig, a chynnig darpariaeth addas lle y bo'n briodol.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyfatebol a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio, diogelwch a'r rhwymedigaethau statudol eraill.
- Sicrhau bod cynrychiolydd Croeso Cymru yn cael mynediad rhesymol i'r eiddo, ar gais, i gadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

5.0 Amodau Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i bob busnes sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru wneud y canlynol:

- Bodloni neu ragori ar ofynion mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau/Gwasanaethau ac ansawdd er mwyn cael ei raddio yn y sector llety perthnasol.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael ei asesu, ac os bydd cwynion gan gynrychiolydd awdurdodedig Croeso Cymru.
- Talu ffi flynyddol i fod yn rhan o'r cynllun.
- Darparu datganiad hygyrchedd.

6.0 Newid Perchnogaeth

Pan werthir busnes, ni ellir trosglwyddo'r radd gyfredol i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i fod yn rhan o gynllun graddio Sêr Croeso Cymru.

7.0 Arwyddion

Os bydd busnes yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, am ba reswm bynnag, rhaid tynnu'r holl arwyddion arddangos a deunyddiau argraffedig perthnasol yn syth.

Rhaid arddangos logo perthnasol Croeso Cymru a disgrifiad swyddogol Croeso Cymru wrth ddefnyddio unrhyw raddau Sêr.

Rhaid i bob busnes gymryd rhan yng nghynllun arolygu graddio Croeso Cymru er mwyn cael ei enw wedi'i gynnwys ar restri mewn cyhoeddiadau Croeso Cymru, ar ei wefan, ac o fewn rhwydwaith y Canolfannau Croeso.

Os nad yw busnes yn cydymffurfio â'r amodau hyn, gellir ei wahardd rhag arddangos neu ddefnyddio cymeradwyaeth Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd.

8.0 Beth i'w Wneud Os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddir

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm dros anghytuno â'r radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau penodol ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, dylech gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar **0845 0108020** neu anfon e-bost atom yn **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk** a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon.

Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn:

Yr Adran Sicrhau Ansawdd,
Croeso Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3UR.

Cyflwynir y wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn gwbl ddidwyll a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei chywirdeb. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wall neu gamddehongli. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeulustod neu ddifrod arall a achosir drwy ddibyniaeth ar y wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn drwy hyn yn cael ei ddiddymu.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7366 8
© Hawlfraint y Goron 2013
WG15023 / G/MH/4298 / 0213